
Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

**Future Generations** Commissioner for Wales

# Llywodraeth addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

## Adolygiad i weithrediad Llywodraeth Cymru o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



**Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory**

cenedlaethaurdyfodol.cymru

**12 / 12 / 2022**



Comisiynydd **Cenedlaethau’r Dyfodol** Cymru
**Future Generations** Commissioner for Wales

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn gosod yn ôl y gyfraith weledigaeth genedlaethol gyffredin ar gyfer llesiant yng Nghymru.**

Mae’n cyflwyno pedwar dimensiwn llesiant (amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd) sy’n paentio darlun cyfannol o lesiant yng Nghymru. Mae’r Ddeddf hefyd yn creu rôl Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru. Prif rôl y Comisiynydd yw helpu cyrff cyhoeddus i newid eu hymddygiad a dilyn gofynion newydd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru.

Dyletswydd y Comisiynydd, fel y nodir yn y gyfraith, yw hyrwyddo’r egwyddor datblygu cynaliadwy (sy’n nodi y dylai cyrff cyhoeddus geisio sicrhau bod anghenion cenedlaethau’r presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau), i weithredu fel gwarcheidwad anghenion cenedlaethau’r dyfodol a helpu cyrff cyhoeddus i feddwl yn yr hirdymor. Gallwch ddarllen mwy am y Ddeddf a’r Comisiynydd yma.

1. Cyflwyniad
2. Pobl a Diwylliant
3. Pennod proses
4. Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus
5. Conclusion



# Cyflwyniad

**Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym yn 2016, gan osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i gyflawni datblygu cynaliadwy.**

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd a feiddiodd ymgorffori ei hymrwymiad i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn y gyfraith – cam dewr i unrhyw lywodraeth ac mae wedi cael ei chanmol yn rhyngwladol amdani, yn gwbl briodol.

> *"Beth mae Cymru yn ei wneud heddiw, bydd y byd yn ei wneud yfory."*
> **Y Cenhedloedd Unedig**

Roedd y Ddeddf yn cynrychioli cam pendant tuag at wneud penderfyniadau hirdymor a symud i ffwrdd oddi wrth y tymor byr, rhywbeth sy'n endemig wrth wneud penderfyniadau ar draws y byd.

**Nod y Ddeddf yw creu dyfodol gwell, mwy disglair i'n cenhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol a'n hatal rhag gwneud penderfyniadau a all ein niweidio heddiw ac yfory.**

Mae ffordd i fynd eto i gyflawni'r weledigaeth uchelgeisiol y mae'r saith nod llesiant yn ei gosod ar gyfer Cymru gynaliadwy, ond rydym eisoes wedi dod yn bell o sut yr oedd pethau cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno gyntaf. Dros y saith mlynedd diwethaf, ers cyflwyno'r Ddeddf, rwyf wedi gweld newid cadarnhaol yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn gwneud pethau; gyda llawer o enghreifftiau da o bolisïau a phenderfyniadau newydd beiddgar sy'n anelu at fynd i'r afael ag anghenion ein cenedlaethau presennol tra'n diogelu anghenion ein dyfodol. Mae diwylliant sefydliadol yn symud o fod yn un o feddylfryd tymor byr mewn seilo i un sy'n ymwybodol o'r angen i integreiddio ac ystyried goblygiadau hirdymor ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru, yn gadarnhaol, wedi dewis integreiddio ei hymrwymiadau i'r Ddeddf yn y ddwy Raglen Lywodraethu y maent wedi'u cyhoeddi ers pasio'r gyfraith (dyma'r dogfennau craidd sy'n arwain yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud a'r ymrwymiadau y mae'n eu gwneud i bobl Cymru). Yn Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf Llywodraeth Cymru, maent wedi ymrwymo i fynd i'r afael â materion mawr fel newid yn yr hinsawdd mewn ffordd frys a chydgysylltiedig. Maent hefyd yn ceisio treialu polisïau blaengar newydd megis Incwm Sylfaenol Gadawyr Gofal sy'n ceisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau tymor hwy. Maent yn datblygu polisïau mewn ffyrdd newydd, gyda phwyslais ar gynnwys dinasyddion a phartneriaid, megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Mae'r Ddeddf hefyd wedi nodi newid yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Ddeddf drwy nifer o benderfyniadau a thargedau, er enghraifft, ym meysydd datgarboneiddio, trafnidiaeth a gwastraff.

Er bod pandemig Covid-19 wedi bod yn doriad ac yn rhwystr i gynnydd mewn llawer o feysydd, mae hefyd wedi dangos sawl ffordd y gellir cyflymu cynnydd. Mae'r Ddeddf yn arf ac yn fframwaith a all ein helpu i adeiladu gwasanaeth sifil addasol a hyblyg sy'n barod ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol. Wrth i ni gymryd ein cam nesaf ar daith Cymru tuag at gynaliadwyedd, mae angen i ni nawr weld sut y gallwn adeiladu ar y gwersi yr ydym wedi'u dysgu.

Mae'n amlwg iawn bod gan y Ddeddf tyniant o fewn a thu hwnt i'r sector cyhoeddus. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi brwdfrydedd aruthrol dros y weledigaeth y mae'n ei gosod ac yn wir y ffaith ei bod yn gosod Cymru yn unigryw fel gwlad sydd â'i gweledigaeth hirdymor wedi'i gosod yn y gyfraith. Mae hwn yn gynnig deniadol i fusnes, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol gan ei fod yn lliniaru'r ansicrwydd ynghylch blaenoriaethau gwleidyddol cyfnewidiol ac yn rhoi'r cyfle i sefydliadau ac arweinwyr ar draws pob sector i gydgordio o amgylch gweledigaeth ac ystyried sut y gallant gyfrannu ati fel rhan o 'Dull Tîm Cymru'. Ni ddylid diystyru pŵer hyn a gellid ei ddefnyddio ymhellach fel ffordd o ysgogi cynnydd ar draws pob sector yng Nghymru.

Bydd heriau a chyfleoedd y dyfodol yn gofyn am lywodraeth y dyfodol – un sy'n edrych am ffyrdd newydd o gynnwys y cyhoedd, deall eu hanghenion, a mesur effaith polisïau a phenderfyniadau. Bydd angen iddo fod yn fwy ymaddasol, yn hyblyg ac wedi'i baratoi'n well ar gyfer argyfyngau, cynnwys ystod ehangach o sgiliau ac arbenigedd, a chael gweledigaeth glir o'r hyn y mae ei eisiau ar gyfer dyfodol Cymru.



# Canfyddiadau'r Adolygiad Adran 20

## Canfyddiadau trosfwaol

- Mae'r Ddeddf a'r graddau y mae wedi'i gwreiddio yn DNA datblygiad a chyflawniad polisi cyhoeddus Cymru yn parhau i fod ar flaen y gad yn fyd-eang.
- Mae cyrhaeddiad y Ddeddf, brwdfrydedd ac ymrwymiad i'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni wedi ymestyn y tu hwnt i'r sefydliadau hynny sy'n dod o dan y ddeddfwriaeth.
- Mae ei lwyddiant hyd yma wedi deillio mwy o arweinyddiaeth ac ymrwymiad na phrosesau sydd wedi'u sefydlu.
- Bydd angen arweinyddiaeth glir, cyfathrebu parhaus ac adolygu cyson er mwyn i'r llywodraeth symud yn llwyddiannus i'r cam nesaf o'r gweithredu.

## Canfyddiadau:

Yn yr adran Fethodoleg isod, rwyf wedi nodi strwythur yr adolygiad hwn o amgylch tair nodwedd allweddol – **Pobl a Diwylliant, Proses ac Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus**. Dyma'r canfyddiadau allweddol a nodwyd yn ystod yr adolygiad hwn ym mhob un o'r tair nodwedd:

### Pobl a Diwylliant

1. Mae yna ymdeimlad o falchder a brwdfrydedd yn y ddeddfwriaeth flaengar hon, ond mae rhywfaint o anghysondeb rhwng lefel y brwdfrydedd ac ymrwymiad a dealltwriaeth fanwl o gymhwysiad.
2. Mae llu o ddeunyddiau dysgu o amgylch y Ddeddf - er bod rhywfaint o ddeunydd yn dda, dylai'r llywodraeth geisio deall yn well beth sy'n gweithio ac adeiladu ar ddulliau arloesol sy'n cael eu mabwysiadu mewn rhai rhannau o'r llywodraeth.
3. Ceir ymdrechion ar y cyd i wreiddio meddylfryd hirdymor ar draws y llywodraeth, ond mae'r angen i ymateb i argyfyngau lluosog a chapasiti yn aml yn cael eu hystyried fel rhwystr i weision sifil rhag cymhwyso'r ffordd hon o weithio yn llawn.

### Proses

4. Mae'r Ddeddf yn ysgogi newidiadau yn y ffyrdd y mae polisïau'n cael eu datblygu, eu cynllunio a'u gweithredu ond nid yw eto'n cael ei chymhwyso'n gyson mewn ffordd sy'n gwreiddio pob agwedd ar y Ddeddf, nac ar draws y sefydliad cyfan.
5. Mae amrywiaeth o fecanweithiau atebolrwydd i roi sicrwydd i Weinidogion ac uwch gydweithwyr bod y Ddeddf yn cael ei gwreiddio a'i rhoi ar waith yn y ffordd y mae'r llywodraeth yn gweithio, ond nid ydynt i gyd yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

### Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus

6. Mae potensial heb ei gyffwrdd i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ysgogi, hyrwyddo enghreifftiau da, creu adnoddau, a rhannu dysgu.

Fy argymhelliad i Lywodraeth Cymru, y maent wedi'i dderbyn yw:

**Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymryd camau i wella'n barhaus sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio ei gwaith i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu hamcanion llesiant, gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a, thrwy wneud hynny, sicrhau bod cymaint â phosibl o gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun, yn nodi'r gwelliannau y bydd yn eu gwneud, sy'n mynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r meysydd i'w gwella a amlinellir yn yr Adroddiad Adran 20 hwn.**

**Dylai hyn gynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni camau gweithredu a threfniadau ar gyfer adrodd yn flynyddol, monitro ac adolygu cynnydd, a sut y bydd yn cydweithio ag eraill (gan gynnwys swyddfa'r Comisiynydd) i sicrhau y gall Llywodraeth Cymru barhau i fod ar flaen y gad o ran agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agored gyda'r Comisiynydd i fonitro cynnydd y cynllun hwn. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar gynnydd y cynllun hwn ochr yn ochr â'i hadroddiad blynyddol.**

Drwy gydol y saith mlynedd diwethaf, prin fod wythnos wedi mynd heibio heb i mi, neu fy nhîm, gael gwybod bod pobl yng Nghymru yn falch o'r Ddeddf; fod y rhai oddi allan yn genfigennus fod gennym ni hi; eu bod wedi penderfynu adleoli i fyw a gweithio yng Nghymru oherwydd hynny; neu maent yn dechrau ei ddefnyddio fel fframwaith o fewn eu sefydliadau. Mae'r Ddeddf yn rhoi ysbrydoliaeth i lywodraethau eraill yn y DU ac i'r rhai ar ochr arall y byd, gan gynnwys y Cenhedloedd Unedig. Mae'n gweithredu fel fframwaith gweithredu ar gyfer Cymdeithas Bêl-droed Cymru sy'n gosod cynllun i ddod y gymdeithas bêl-droed fwyaf cynaliadwy yn y byd; ac mae'n gyrru Dŵr Cymru, y Principality, Clwstwr Diwydiannol De Cymru, i enwi ond ychydig, ar eu taith i gynaliadwyedd. Mae'n llywio gwaith awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chymdeithasau tai yn Lloegr, yn ogystal â mentrau cymdeithasol ledled Cymru ac mae wedi dod yn weledigaeth y mae nifer cynyddol o grwpiau cymunedol yn ei gefnogi.

> *"Mae adroddiad carreg filltir Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig **'Our Common Agenda'** yn cydnabod bod yn rhaid i bobl ifanc fod wrth galon prosesau gwleidyddol ar lefel genedlaethol a byd-eang er mwyn cyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.*
>
> *Mae ein gweledigaeth ar gyfer Cenhadaeth Arbennig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol y Cenhedloedd Unedig wedi'i hysbrydoli gan y cynnydd sy'n cael ei wneud mewn rhai gwledydd ledled y byd, gan gynnwys Cymru, sy'n dangos ei bod hi'n bosibl deddfu a gweithredu i roi buddiannau cenedlaethau'r dyfodol wrth galon y llywodraeth."*
>
> **Dywedodd Jayathma Wickramanayake,** Llysgennad Ieuenctid Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig

> *"Gan weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi ymrwymo i ysbrydoli eraill a chydweithio â phobl a sefydliadau ledled Cymru heddiw i wneud gwell yfory. Gorau chwarae cyd chwarae. Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd. Yn yr un modd, rydym yn rhan annatod o weledigaeth Llywodraeth Cymru i chwaraeon fod yn rhan o stori Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang sy'n malio. Byddwn hefyd yn gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac yn ymgysylltu â strategaeth cynaliadwyedd pêl-droed UEFA 2030. Un fricsen ar y tro, byddwn yn adeiladu wal goch gartref ac o gwmpas y byd."*
>
> **Noel Mooney**
> Prif Weithredwr Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Yr her fydd i'r llywodraeth fanteisio ar hyn a sicrhau eu bod yn arwain, yn cefnogi ac yn herio eraill i barhau i ddefnyddio'r Ddeddf i arwain penderfyniadau anodd a blaenoriaethu adnoddau yn sgil heriau economaidd yn y DU a'r argyfwng costau byw canlyniadol sy'n wynebu teuluoedd ledled Cymru. Rhaid i'r llywodraeth ddefnyddio'r Ddeddf i osgoi gosod 'plasteri' dros dro ar broblemau a cheisio mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol yn lle hynny. Mae'n rhaid iddynt fuddsoddi adnoddau cyfyngedig mewn polisïau sy'n mynd i'r afael â'r heriau ariannol a chymdeithasol presennol sy'n wynebu teuluoedd a chymunedau, a hefyd yn sicrhau manteision tymor hwy. Rhaid i beirianwaith a seilwaith y llywodraeth gymhwyso'n systematig y pum ffordd o weithio, sydd wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf, i sicrhau bod pob polisi'n cael ei ddatblygu a'i weithredu mewn ffordd sy'n ysgogi buddion hirdymor lluosog.

Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen i ni sicrhau bod gan y llywodraeth fecanweithiau ar waith sy'n galluogi arloesi i barhau a thyfu; sicrhau bod ei brosesau a'i lywodraethu'n herio'r system yn adeiladol i fynd ymhellach wrth gymhwyso'r Ddeddf a'u bod yn dangos arweiniad drwy gefnogi eraill yn eu dysgu eu hunain a chymhwyso'r Ddeddf.

Dyna pam y penderfynais gynnal adolygiad Adran 20[1] o'r systemau a'r mecanweithiau y tu ôl i benderfyniadau a pholisïau newydd beiddgar Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod y peirianwaith y tu ôl i'r weledigaeth yn ymestyn ei hun i gyflawni'n briodol. Pe bai ewyllys gwleidyddol yn newid neu os bydd tynfa anochel rheolaeth argyfwng yn dyfnhau, mater i beirianwaith y llywodraeth fydd sicrhau bod dyletswyddau statudol y Ddeddf yn cael eu cyflawni. Peirianwaith y llywodraeth – y ffordd y mae'n cynghori Gweinidogion a'r broses a ddefnyddir ganddi i ddylunio a chyflawni polisïau ar gyfer Cymru, y ffordd y mae'n rheoli, yn cefnogi ac yn ystyried perfformiad y sefydliad a'r ffordd y mae'n modelu ymddygiadau'r Ddeddf yn ei ryngweithiadau ag eraill – maent i gyd yn feysydd hollbwysig ar gyfer defnyddio'r egwyddorion, y dulliau a'r ymddygiad sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn effeithiol.

Yn galonogol, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio ar eu 'Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Cenedlaethau'r Dyfodol' ar hyn o bryd, a oedd yn golygu y gallai canfyddiadau fy adolygiad gael eu hintegreiddio i helpu i sicrhau bod prosesau, diwylliant ac arweinyddiaeth y llywodraeth yn gwella'n barhaus ac yn gweithio i gyflawni'r Ddeddf.


Sophie Howe

**Greenhouse**
@Greenhouse_PR

'We need to act today for a better tomorrow.' 💚

Brilliant discussion from Future Generations Commissioner for Wales @sophiehowe. Great to see the brave legislative examples from wales being showcased to the wider world.

@TEDCountdown #JoinTheCountdown

09:02 PM · 10/10/2020 · Twitter web App

**Nigel Topping**
@topnigel

Inspiring @TEDCountdown talk from @sophiehowe Wales Future Generations Commissioner - every country should have one of those!!

futuregenerations.wales/team/sophie-howe

09:02 PM · 10/10/2020 · Twitter web App

8 Retweets 2 Quote Tweets 13 Likes





*"Mae'r holl gysyniad o arweinwyr y dyfodol ac yn wir deddfu i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn rhywbeth yr hoffwn ei drosglwyddo'n uniongyrchol ar draws Môr Iwerddon."*

**Simon Coveney,**
Gweinidog Tramor Iwerddon

*"Ni ddylem fod yn ceisio addasu a chymhwyso popeth i ffitio Cynnyrch Gros Domestig (GDP) fel dull o fesur. Mae yna gydrannau gwerthuso a metrigau sy'n llawer mwy deinamig na'r GDP. Yng Nghymru mae prosiectau cynlluniedig y sector cyhoeddus yn cael eu gwerthuso gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â mandad i wneud argymhellion yn seiliedig ar yr effeithiau ar y rhai sydd eto i'w geni."*

**Mariana Mazzucato**
Economegydd byd-enwog a chynghorydd i'r Cenhedloedd Unedig, OECD a Fforwm Economaidd y Byd

## Pam ydym ni'n cynnal yr adolygiad hwn?


Cyflwynwyd y Ddeddf i sicrhau ein bod yn creu dyfodol gwell i'n cenhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Un o'i nodau oedd gwneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog sy'n llywio sut mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn gweithredu. Felly, mae dyletswyddau a gweledigaeth y Ddeddf yn anelu at ysgogi gwell penderfyniadau ond hefyd gwneud penderfyniadau gwell, sy'n golygu'r 'beth' – (y dewisiadau polisi ac adnoddau) sy'n cael ei wneud ac mae'r 'sut' (y ffordd y cânt eu gweithredu yn unol â'r Ddeddf) yr un mor bwysig.

Er bod llawer wedi'i ddweud a'i ysgrifennu dros y blynyddoedd am y polisïau amrywiol, megis Polisi Cynllunio Cymru a Strategaeth Trafnidiaeth Cymru newydd, a'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd (fel y moratoriwm ffyrdd) i roi'r Ddeddf ar waith, y peirianwaith y tu ôl i wneud penderfyniadau, y 'sut' y tu ôl i'r 'beth' sy'n cael ei wneud, heb ei archwilio cymaint.

Nod yr adolygiad Adran 20 hwn yw archwilio hyn yn union – sut mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r Ddeddf ac yn cyflawni ei dyletswyddau wrth ddylunio, datblygu a chyflawni penderfyniadau polisi. Roedd gennyf ddiddordeb penodol mewn gweld gweithrediad amcanion llesiant Llywodraeth Cymru a nodir yn eu Rhaglen Lywodraethu[2]. Y nod oedd nodi arfer da a meysydd i'w gwella a allai fod yn ofynnol er mwyn parhau â'r daith o ymgorffori'r Ddeddf ym mhrosesau, diwylliant ac arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru.

1. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd, o dan adran 20, i gynnal adolygiad i'r graddau y mae cyrff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion drwy ystyried effaith hirdymor y pethau y mae'r cyrff yn eu gwneud o dan eu dyletswydd llesiant (adran 3). Wrth gynnal adolygiad o'r fath, caiff y Comisiynydd gyflwyno argymhellion a rhaid cyhoeddi adroddiad o'r adolygiad.

2. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill osod a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n rhoi'r cyfraniad mwyaf posibl i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Yna mae'n rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.




Rwyf wedi defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i benderfynu y bydd adolygiad ar hyn o bryd yn ddefnyddiol, gan gynnwys fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (2020), a oedd i gyd yn tynnu sylw at rwystrau a meysydd i'w gwella sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf o fewn Llywodraeth Cymru.

> *"Yn y camau a adolygwyd gennym, roedd Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn ffyrdd amrywiol er i ni nodi rhai cyfleoedd cyffredin ar gyfer gwella... Gallai Llywodraeth Cymru wella ei thystiolaeth o effaith hirdymor y camau a meithrin ei dealltwriaeth o atal."*
>
> **Archwilio Cymru (2019)**

> *"Nid yw gweithredu'r newid diwylliannol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi cael digon o adnoddau – o fewn y llywodraeth ac ar gyfer y cyrff cyhoeddus y maent yn eu noddi... Wrth geisio cau'r bwlch gweithredu hwn, dylai Llywodraeth Cymru fod yn cymhwyso'r ffyrdd o weithio yn y modd y maent yn dylunio, yn darparu adnoddau, yn darparu ac yn gwerthuso gweithrediad polisi a deddfwriaeth."*
>
> **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020**

> *"Arafodd Gweinidogion Cymru i weithredu a hyrwyddo'r Ddeddf yn y blynyddoedd yn union ar ôl iddi gael ei phasio. O ganlyniad, ni roddodd gwasanaeth sifil Cymru'r Ddeddf ar waith yn ddigon da yn fewnol ac ni wnaeth hi'n glir i gyrff cyhoeddus ei fod yn disgwyl iddynt wneud hynny hefyd. Mae hyn wedi bod yn rhwystr sylfaenol i weithredu, ac mae ei effaith yn dal yn amlwg ar draws y sector cyhoeddus heddiw."*
>
> **Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2021)**





Drwy'r adolygiad hwn, buom yn edrych ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei **phrosesau, ei phobl a'i diwylliant** ac **arweinyddiaeth y sector cyhoeddus** yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn rhoi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau a wnânt.

Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn fy helpu i a fy nhîm i gefnogi cyrff cyhoeddus eraill drwy fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru.


## Methodoleg

Nod yr adolygiad hwn yw archwilio sut mae peirianwaith Llywodraeth Cymru yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rwyf wedi defnyddio ffynonellau lluosog, gan gynnwys Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Llywodraethu Effeithiol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i nodi'r nodweddion llywodraethu allweddol a all ysgogi gweithrediad y Ddeddf.

Gan fod y ddeddfwriaeth wedi'i chynllunio i dreiddio i'r ffordd y mae'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus yn gweithio, penderfynais ganolbwyntio'r adolygiad hwn ar dair nodwedd allweddol er mwyn helpu i lunio canfyddiadau a chasgliadau a all helpu Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y maent yn gweithredu'r Ddeddf yn barhaus yn y dyfodol.

### Pobl a Diwylliant

Mae gweithredu'r Ddeddf yn mynd y tu hwnt i broses ac mae angen ei wreiddio yn niwylliant y sefydliad er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei weld fel Ymarferiad ticio bocs yn unig.




### Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus

Dylid rhannu arferion da ag eraill er mwyn eu galluogi i roi'r Ddeddf ar waith hefyd.

### Prosesau

Er mwyn sefydlu ymwreiddio cychwynnol y Ddeddf, yn ogystal â chysondeb ar draws y sefydliad a hirhoedledd sy'n para'n fwy na'r newid mewn staff ac uwch arweinwyr, mae angen sefydlu'r prosesau cywir i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

Er mwyn caniatáu imi ddyfnhau fy nealltwriaeth o sut mae'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith o fewn peirianwaith Llywodraeth Cymru, edrychodd yr adolygiad ar fecanweithiau'r llywodraeth drwy lens camau llesiant Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Phrentisiaethau. Tynnodd yr adolygiad hefyd ar nifer gyfyngedig o feysydd polisi eraill i'm galluogi i wneud argymhellion sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Yn unol ag ysbryd cydweithio (fel ffordd o weithio yn y Ddeddf), rwyf wedi cynnal yr adolygiad hwn ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi cael fy nghalonogi gan ymrwymiad y Prif Weinidog, yr Ysgrifennydd Parhaol a'r gwasanaeth sifil ehangach i ymgymryd â'r gwaith hwn mewn ysbryd o ddysgu ac ymestyn y sefydliad. Mae'r dull hwn hefyd wedi golygu bod canfyddiadau a dynnwyd o'r broses adolygu wedi gallu cael eu hystyried ac, mewn rhai achosion, eu datrys yn gyflym yn hytrach nag aros am yr allbwn terfynol.

## Ymagwedd



Cynhaliais adolygiad llenyddiaeth i nodi'r prif themâu yr hoffwn eu harchwilio gyda Llywodraeth Cymru a sicrhau bod yr adolygiad yn adeiladu ar dystiolaeth bresennol mewn perthynas â materion llywodraethu a chapasiti.

Llofnodais gytundeb cydweithio â Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i rannu dogfennau a chydweithio ar yr adolygiad hwn.

Gofynnais am wybodaeth gan y llywodraeth, gan gynnwys rhestr o fecanweithiau y maent yn eu defnyddio i weithredu'r Ddeddf o fewn peirianwaith y llywodraeth.

Cynhaliais sesiynau gyda 39 o swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys uwch arweinwyr a Gweinidogion, a gweision sifil o'r proffesiynau corfforaethol a llunio polisi. Cefais sesiwn hefyd gyda 4 o gyn-fyfyrwyr y llywodraeth o Academi Arwain Cenedlaethau'r Dyfodol i gael barn ar sut mae gweithredu'r Ddeddf yn mynd a sut y gellir ei gwella.

Cynhaliais 13 sesiwn gyda rhanddeiliaid allanol i brofi fy nghanfyddiadau, a sicrhau nad wyf yn colli gwybodaeth y gallai sefydliadau eraill ei chadw. Roedd hyn yn cynnwys sgyrsiau gyda chynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r Cenhedloedd Unedig a'r OECD.

Roedd yr amserlenni a'r gallu, fy nhîm a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, yn golygu mai dim ond ar ddetholiad o fecanweithiau y gallwn i edrych arnynt a siarad â nifer cyfyngedig o gydweithwyr yn y llywodraeth. Ceisiais wneud hyn mor eang â phosibl er mwyn sicrhau nad yw fy nghanfyddiadau'n adlewyrchu rhan o'r llywodraeth yn unig ac y gall fy argymhellion gael eu cymhwyso ar draws y sefydliad, ac o bosibl gan gyrff cyhoeddus eraill.

Gweithiais hefyd gyda sawl ymchwilydd i ddod â phersbectif hirdymor i mewn. Gweithiais gyda Trajectory ar allbwn Dyfodol Llywodraethu, gyda FLiNT ar gynnwys pobl i ddeall arferion presennol a dyfodol prentisiaethau, a chydag School of International Futures ar weithdy hirdymor gyda Llywodraeth Cymru.

Cefnogwyd y gwaith hwn gan grŵp llywio arbenigol a oedd yn cynnwys arbenigwyr cenedlaethol a rhyngwladol ar lunio polisïau, llywodraethu (gan gynnwys dyfodol) a sgiliau.

## Sut y gall cymhwyso'r Ddeddf effeithio ar ganlyniadau polisi

Gall y gwahaniaeth rhwng cymhwyso'r Ddeddf yn dda neu ddim o gwbl fod yn arwyddocaol i'r cenhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r enghraifft hon yn dangos sut y gallai cymhwyso'r ffyrdd o weithio at ddatblygu polisi sgiliau, hyfforddiant a phrentisiaeth gael canlyniadau cadarnhaol a negyddol ar bobl ymhell y tu hwnt i'w haddysg. Er enghraifft, effeithio ar lefelau tlodi, cydnerthedd amgylcheddol, anghydraddoldeb cymdeithasol, diwylliant, iaith, iechyd a ffyniant.

Gan fod y diweddariad i'r Fframwaith Prentisiaethau yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, nid yw'r tabl isod yn ceisio dadansoddi na barnu'r dull polisi gwirioneddol ond yn hytrach yn dangos sut y gellir cymhwyso'r pum ffordd o weithio a'r canlyniadau y gallem ddisgwyl eu gweld yng nghyd-destun prentisiaethau.

Mae gwybodaeth ac enghreifftiau o'r sesiynau dwys i brentisiaethau i'w gweld ym mhenodau eraill yr adroddiad hwn.

# Cymhwyso'r pum ffordd o weithio i bolisi prentisiaeth

## Hir dymor

### Sut olwg fyddai ar hyn pe bai'n cael ei wneud yn dda?

- Defnyddio tueddiadau yn y dyfodol, senarios a dadansoddiad o gydbwyso tymor byr yn erbyn angen hirdymor. **E.e. mae'r tîm Prentisiaethau yn defnyddio Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a phartneriaid allanol i ystyried tueddiadau hirdymor.**
- Gweledigaeth glir 25+ mlynedd i ddod, yn cyd-fynd ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.
- Mae camau gweithredu ar gyfer amserlenni tymor byr, canolig a hir yn ymrwymo i'r weledigaeth.

### Canlyniadau polisi posibl o gymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi

- Mae niferoedd prentisiaethau mewn diwydiannau gwyrdd yn cynyddu.
- Mae buddsoddiad yn y diwydiannau hyn wedi'i gynllunio dros y ganrif nesaf a'i integreiddio â'r doniau sydd ar gael ym maes addysg a sgiliau.
- Mae mwy o bobl o gefndiroedd amrywiol yn manteisio ar brentisiaethau fel llwybr gyrfa manteisiol, ac mae amrywiaeth yn tyfu yn y diwydiannau hyn, gan gynnwys mewn uwch reolwyr.
- Mae mwy o brentisiaethau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg (ac ieithoedd eraill) ac mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu.

### Canlyniadau polisi posibl o beidio â chymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi

- Nid oes gan Gymru'r sgiliau a'r niferoedd i gyrraedd targedau lleihau allyriadau hinsawdd.
- Mae cynhyrchiant yn parhau i ostwng, ac mae cyfraddau diweithdra yn codi.
- Nid yw prentisiaethau'n cael eu hystyried yn ddewisiadau gyrfa hyfyw ac mae niferoedd yn gostwng.
- Mae diwydiannau sydd wedi cyflogi prentisiaid yn draddodiadol yn tyfu'n gymedrol, ond mae'r cyflenwad o unigolion cymwys yn fwy na'r galw wrth i'r diwydiannau hynny ddirywio a chael eu disodli gan arferion gwyrddach, modern.
- Mae mwyafrif y prentisiaid yn wrywod ifanc, gwyn.
- Mae prentisiaethau ar gael yn Saesneg yn bennaf, heb gyfrannu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

## Atal

### Sut olwg fyddai ar hyn pe bai'n cael ei wneud yn dda?

- Dadansoddiad o wraidd y problemau presennol sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau a datblygu sgiliau a chynllun i fynd i'r afael â nhw, gydag adnoddau pwrpasol wedi'u brigdorri. **E.e. mae'r tîm Prentisiaethau wedi cynnal gweithdy atal ond nid yw'n glir sut maent yn defnyddio'r wybodaeth a godwyd yno.**
- Polisi i gynnwys dadansoddiad o'r materion i'w hatal ac effeithiolrwydd rhagfynegedig camau ataliol – gyda chynllun ar gyfer mesur cynnydd.

### Canlyniadau polisi posibl o gymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi

- Mae'r dadansoddiad yn amlinellu'r hyn sydd wrth wraidd y gostyngiad yn nifer y prentisiaethau a'r camau a gymerwyd i wrthdroi hyn.
- Mae'r trawsnewid o ddiwydiannau carbon-ddwys i ddiwydiannau gwyrddach yn cael ei reoli'n dda – mae gweithwyr hŷn yn gallu ail-sgilio ar gyfer rolau newydd ac addasu.
- Mae Cymru'n elwa o'r cyflenwad talent hwn ac yn cyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau hinsawdd ac yn gwneud cynnydd da o ran atal dirywiad byd natur.
- Dadansoddiad o achosion anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth o brentisiaethau a diwydiannau'r dyfodol. Camau a roddwyd ar waith i atal hyn.
- Mae plant yn cael eu hannog i archwilio prentisiaethau fel llwybr gyrfa hyfyw.
- Darpariaeth wedi'i thargedu at ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i brentisiaethau.
- Mae prentisiaethau yn arwain at waith hirdymor, cynaliadwy a theg. Mae'r economi a chynhyrchiant yn tyfu.

### Canlyniadau polisi posibl o beidio â chymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi

- Colli cyfleoedd i gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau economaidd-gymdeithasol a bywydau cenedlaethau'r dyfodol. Nid yw'r newid o ddiwydiannau carbon-ddwys i ddiwydiannau gwyrddach yn cael ei reoli'n dda – nid oes digon o weithredu i ailsgilio ac mae uwchsgilio'n digwydd yn rhy hwyr.
- Mae anghydraddoldebau'n gwaethygu wrth i rai grwpiau elwa ar y newid yn y farchnad lafur, tra bod eraill yn brin o gyfleoedd i gael mynediad at brentisiaethau, darpariaeth sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn lleihau ac mae Cymru'n dioddef 'brain-drain' wrth i fwy o bobl ifanc adael i ddod o hyd i addysg a chyflogaeth yn rhywle arall.
- Nid oes gan Gymru'r sgiliau a'r niferoedd i gyrraedd targedau lleihau allyriadau hinsawdd.

## Cynnwys

### Sut olwg fyddai ar hyn pe bai'n cael ei wneud yn dda?

- Mae'r polisi'n cymryd amser i'w ddatblygu drwy ymgyfraniad a chyd-ddylunio gyda'r cyhoedd. **E.e. mae'r tîm Prentisiaethau'n gryf o ran cynnwys cyflogwyr a darparwyr ond gallant wella'r modd y maent yn cynnwys prentisiaid.**
- Amser ac adnoddau wedi'u buddsoddi fel bod y cyhoedd yn gallu deall a chyfrannu'n barhaus at y gwaith o ddylunio, darparu a gwerthuso'r polisi.
- Mae cydweithredu yn sicrhau bod cyfranogiad yn bellgyrhaeddol ac yn blaenoriaethu lleisiau nas clywir yn aml.
- Dolen adborth i ddangos i bobl effaith eu cyfraniad.

### Canlyniadau polisi posibl o gymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi

- Mae cynnwys ystod eang o bobl – gan gynnwys prentisiaid y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, gweithwyr o bob oed a diwydiant, grwpiau cymunedol a lleisiau nas clywir yn aml – yn helpu i nodi'r cymhellion a'r anghymhellion i gymryd prentisiaeth.
- Mae'r polisi'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r camsyniadau am brentisiaethau ac mae niferoedd yn tyfu ac amrywiaeth yn gwella.
- Mae ymgyfraniad parhaus yn helpu i fonitro llwyddiant y polisi a gwneir newidiadau i'r ddarpariaeth yn gyflym i sicrhau bod pobl yn dal i elwa.
- Mae ymgyfraniad wedi annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y polisi ac mae pobl yn llawer mwy ymwybodol o fanteision prentisiaethau, hyfforddiant ac uwchsgilio.

### Canlyniadau polisi posibl o beidio â chymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi

- Mae ymgynghoriad ar y polisi drafft yn cyrraedd nifer fach o weithwyr proffesiynol, ond nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r angen i feithrin sgiliau a chyflogaeth mewn diwydiannau gwyrdd.
- Nid oes gan y polisi'r cyrhaeddiad na'r effaith a ddisgwylir. Nid oes gan Gymru'r sgiliau a'r niferoedd i gyrraedd targedau lleihau allyriadau hinsawdd.
- Nid yw'r polisi'n llwyddiannus o ran amrywiaeth yn y ddarpariaeth prentisiaethau.
- Nid yw'r polisi'n llwyddiannus o ran gwella llesiant cenedlaethau'r presennol na'r dyfodol.

## Cydweithio

### Sut olwg fyddai ar hyn pe bai'n cael ei wneud yn dda?

- Mae'r polisi'n cymryd amser i'w ddatblygu drwy gyd-ddylunio ag amrywiaeth o randdeiliaid sydd ag arbenigedd ar yr holl nodau llesiant cenedlaethol. **E.e. mae'r tîm Prentisiaethau'n cydweithio'n rheolaidd â thimau o fewn Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.**
- Mae camau gweithredu polisi wedi'u diffinio'n glir ac mae rhanddeiliaid yn berchen arnynt ar y cyd.
- Mae cyllidebau wedi'u neilltuo ar gyfer gwaith cydweithredol yn unig.
- Secondiadau o sectorau gwahanol yn cael eu defnyddio i gyflenwi a gwerthuso cynnydd ar y cyd.

### Canlyniadau polisi posibl o gymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi

- Mae pawb yn y system sydd â rhan i'w chwarae – o athrawon, i ddarparwyr hyfforddiant, i arweinwyr busnes, i fyrddau rhanbarthol, i arweinwyr cymunedol, i arbenigwyr amgylcheddol a chydraddoldeb – yn deall y camau y maent yn eu cymryd i gynyddu nifer y prentisiaid mewn diwydiannau gwyrdd.
- Ariennir gweithredu ar y cyd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i ddarparu darpariaeth yn gyflym mewn diwydiannau sy'n tyfu. Mae integreiddio a chynnwys da yn golygu bod partneriaid lleol a rhanddeiliaid cymunedol yn annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd prentisiaeth, gan gynnig cymhellion a llwybrau sy'n hawdd eu llywio.

### Canlyniadau polisi posibl o beidio â chymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi

- Mae llawer o randdeiliaid yn ymddieithrio oddi wrth ddylunio, datblygu a chyflawni'r polisi.
- Mae rhwystredigaeth ynghylch diffyg cyfeiriad strategol, cydweithredu tocenistaidd a rhwystrau cyffredinol i gyfathrebu yn gosod llawer o bartneriaid rhanbarthol a lleol yn gwrthwynebu cyfeiriad y polisi.
- Mae dosbarthiad anhrefnus, anghyfartal o ddarpariaeth yn bodoli ledled Cymru – 'loteri cod post' o gyfle i ymgymryd â dysgu (yn enwedig mewn iaith heblaw Saesneg) - sy'n golygu mai'r rhai o gefndiroedd gwyn, cefnog, trefol sy'n elwa fwyaf o fuddsoddiad.

| Sut olwg fyddai ar hyn pe bai'n cael ei wneud yn dda? | Canlyniadau polisi posibl o gymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi | Canlyniadau polisi posibl o beidio â chymhwyso'r Ddeddf yn dda wrth ddylunio polisi |
|---|---|---|
| **Integreiddio**<br><br>• Mae'r polisi'n canolbwyntio ar y Ddeddf fel egwyddor drefnu ganolog, gan ddangos sut y bydd yn cyfrannu at amcanion llesiant (a'r nodau llesiant) Llywodraeth Cymru mewn ffordd integredig.<br>• Rhoddir ystyriaeth i effaith ar holl amcanion llesiant y sefydliad ac i effeithiau ar waith timau eraill. **E.e. mae'r tîm Prentisiaethau yn cynnal sesiynau her gyda'r adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes ehangach.**<br>• Rhoddir ystyriaeth i'r effaith ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a manteisir ar gyfleoedd i gydweithio.<br>• Mae'r camau gweithredu yn drawsadrannol gyda chamau gweithredu ataliol, integredig a chyllidebau wedi'u dyrannu. | • Mae polisi sgiliau a phrentisiaethau yn cyd-fynd â blaenoriaethau buddsoddi, sydd yn eu tro yn cyd-fynd ag amcanion llesiant y llywodraeth.<br>• Mae buddsoddiad mewn diwydiannau gwyrdd wedi'i gynllunio dros y ganrif nesaf ac mae ymdrechion wedi'u halinio i sicrhau bod addysg, sgiliau a chyflogaeth ar y gweill er budd Cymru.<br>• Mae niferoedd prentisiaethau'n cynyddu mewn diwydiannau a nodir yng Nghymru Ddi-Garbon Net.<br>• Mae yna gamau gweithredu trawsadrannol clir a chyllidebau integredig i annog mynediad i'r prentisiaethau hyn gan bobl o bob cefndir – mae ymrwymiad i'r polisi yn rhychwantu'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus gyda ffocws ar symud ymlaen i brentisiaethau yn y cwricwlwm cenedlaethol, buddsoddi mewn dysgu gydol oes, aliniad â camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol; Bil Amaethyddiaeth; cydraddoldeb rhyw ac ati.<br>• Mae camau gweithredu yn cyd-fynd â strategaethau mewn meysydd eraill.<br>• Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu wrth i'r ddarpariaeth o brentisiaethau Cymraeg dyfu ac wrth i fwy o bobl ddod â'u sgiliau i'w gwaith, eu cymuned a'u bywydau o ddydd i ddydd.<br>• Mae Cymru'n dod yn enwog am ei harferion mewn cyfrifoldeb byd-eang oherwydd lleihad mewn allyriadau carbon, atal dirywiad byd natur, rhaglenni cyfnewid dysgu a rhannu polisi sy'n rhoi llesiant wrth ei galon ar lwyfan rhyngwladol. | • Mae polisi prentisiaethau'n cael ei ddatblygu ar wahân i'r weledigaeth hirdymor ac amcanion llesiant y llywodraeth a rhai'r sector cyhoeddus ehangach, nid oes gan y polisi'r cyrhaeddiad na'r effaith a ddisgwylir.<br>• Colli cyfleoedd i alinio buddsoddiad â chynyddu'r sylfaen sgiliau. Nid oes gan Gymru'r sgiliau a'r niferoedd i gyrraedd targedau lleihau allyriadau hinsawdd.<br>• Mae'r polisi'n cael ei ddatblygu ar wahân i bolisiau a strategaethau eraill heb fawr o aliniad – o ganlyniad, mae prentisiaethau'n parhau'n isel, yn bennaf gan ddynion ifanc, gwyn ac mewn diwydiannau sydd â rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol yn dirywio.<br>• Mae gan yr effaith ganlyniadol oblygiadau i wasanaethau cyhoeddus ehangach. Er enghraifft, mae'r galw ar iechyd a gofal cymdeithasol yn cynyddu, gyda phrinder pobl i lenwi swyddi gwag.<br>• Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn marweiddio ac yn gostwng mewn rhai ardaloedd yn erbyn y targed o filiwn erbyn 2050. Mwy o bobl yn symud i ffwrdd i ddod o hyd i waith a chyfleoedd.<br>• Mae Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill yn ei chyfrifoldeb byd-eang, gydag economi sy'n seiliedig ar ddiwydiannau trwm sy'n gollwng carbon a sefydliadau sy'n parhau i ddefnyddio adnoddau naturiol yn anghynaliadwy. |



## Y Stori Hyd Yma

Ni allwn edrych tuag at y daith o'n blaenau heb gydnabod a deall y llwybr hir yr ydym eisoes wedi'i gerdded tuag at gynaliadwyedd yng Nghymru.

Mae'r newidiadau cadarnhaol niferus y mae'r Ddeddf wedi'u cyflwyno yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn gweithio yn rhy hir i'w rhestru ond mae rhai trobwyntiau allweddol wedi dod â ni i'r sefyllfa bresennol o ran rhoi'r Ddeddf ar waith:

### Cyn y Ddeddf

**2000**
- Cynllun Datblygu Cynaliadwy cyntaf Cymru, Dysgu Byw'n Wahanol

**2004**
- Ail Gynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru, Dechrau Byw'n Wahanol

**2009**
- Trydydd Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

**2011**
- Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i ddeddfu ar ddatblygu cynaliadwy

### Datblygu'r Ddeddf

**2012**
- Papur Gwyn y Bil Datblygu Cynaliadwy – Cymru Gynaliadwy; Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell

**2013**
- Rhaglen Newid Ymddygiad yn dechrau

**2014**
- Sgwrs Genedlaethol – Y Gymru a Garem erbyn 2050 – Ymrwymiad cymdeithas Gymreig i ansawdd bywyd gwell i genedlaethau'r dyfodol

**2015**
- Nodau Datblygu Cynaliadwy yn cael eu cytuno gan y Cenhedloedd Unedig
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- Ymgynghoriad ar y canllawiau statudol
- Ymgynghoriad ar ddangosyddion llesiant cenedlaethol

### Ers i'r Ddeddf ddod i rym

**2016**
- Cyhoeddi'r Ddeddf a'i dod i rym (Ebrill)
- Mae'r Is-adran Dyfodol Cynaliadwy wedi'i sefydlu i helpu i wreiddio'r Ddeddf o fewn Llywodraeth Cymru
- Cyhoeddi'r Canllawiau Statudol i'r Ddeddf
- Llywodraeth Cymru yn datblygu'r set gyntaf o 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol i fesur cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf
- Cymru yn penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf Cymru

## Ers i'r Ddeddf ddod i rym

**2017**
- Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi set o 12 amcanion llesiant yn 'Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol' sy'n cyd-fynd â'r datganiadau llesiant
- Sefydlir Grŵp Goruchwylio a Galluogi o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn cysylltu hyrwyddwr y Ddeddf
- Mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru nifer o brosesau a mecanweithiau i gyfeirio at y Ddeddf, ochr yn ochr â holl ymgysylltu ac ymwybyddiaeth am y Ddeddf
- Penodi hyrwyddwr Bwrdd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyhoeddir Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol cyntaf
- Adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion yn 'Adroddiad Llesiant Cymru'
- Llywodraeth Cymru'n dechrau adrodd ar wreiddio'r Ddeddf yn y Cyfrifon Blynyddol Cyfunol
- Ysgrifennydd Parhaol 'Menter Diogelu'r Dyfodol' - ffocws ar gyfer gwella'n barhaus

**2017**
- Pecyn o gefnogaeth i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Datblygu Asesiad Effaith Integredig, sy'n cynnwys ystyriaethau o amgylch y Ddeddf
- Llywodraeth Cymru'n rhan o grŵp cyrff cenedlaethol y Ddeddf
- Gwreiddio'r Ddeddf o fewn y broses gyllidebau strategol
- Gweithdai a gyd-ddatblygwyd ac a gyflwynir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a WWF Cymru i nodi meysydd i'w gwella

## Ers i'r Ddeddf ddod i rym

### 2018

- Polisi Cynllunio Cymru 10 yn cael ei gyhoeddi, gan ganolbwyntio cynllunio ar lesiant a chynaliadwyedd
- Unodd Tîm Datblygu Cynaliadwy (arwain ar y Ddeddf) â'r tîm sy'n arwain ar welliannau i lunio polisïau a gallu polisi (Is-adran polisïau ar gyfer y Dyfodol a Llunio Polisïau Integredig)
- Menter diogelu'r dyfodol yn cynnwys disgwyliadau sefydliadol gan gyfeirio'n benodol at y 'pum ffordd o weithio' y Ddeddf
- Arolwg i staff a ddiwygiwyd i gynnwys cwestiynau ar y Ddeddf
- Cyhoeddi adroddiad 'All Together' ar y cyd â WWF er mwyn deall y materion sy'n ymwneud â'r gweithredu o fewn Llywodraeth Cymru
- Adroddiad Blynyddol ar amcanion llesiant
- Dros 3,500 o staff wedi'u hyfforddi mewn 'Dyfodol-Tanio-Cyflawni'

### 2019

- Cymru yw'r senedd gyntaf yn y byd i ddatgan Argyfwng Hinsawdd
- Cynigion ar gyfer y cerrig milltir cenedl\ethol cyntaf
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar hyrwyddo agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Sefydlwyd Fframwaith Perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, wedi'i osod yng nghyd-destun y Ddeddf ac mae'n cynnwys priodoleddau sy'n canolbwyntio ar y pum ffordd o weithio
- Cynadleddau NDC yng Nghymru a chyhoeddi adroddiad 'Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy' (atodol i Adolygiad Gwirfoddol y DU)
- Ymateb i argyfwng Covid-19 yn helpu i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach
- Adolygiad I'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn cydlynu gwreiddio'r Ddeddf yn swyddogaethau'r sefydliad

### 2020

- Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020
- Digwyddiad Xchange Cenedlaethau'r Dyfodol i weision sifil glywed gan arbenigwyr ac arferion da ar agenda'r Ddeddf
- Diweddarwyd 'Fframwaith Gweithredu Strategol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' gan gwmpasu meysydd o welliant yn y gwasanaeth sifil, galluogi eraill, a deall Cymru
- Datblygu Fframwaith Galluogi Polisi i sicrhau bod llunio polisïau'n cael ei yrru gan y Ddeddf
- Cyfarfodydd Bord Gron ar ail-greu'r dyfodol Cymru wedi'r coronafeirws
- Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Cymru yn ymuno â'r Rhwydwaith Llywodraethau Economi Llesiant (WeGo) ochr yn ochr â'r Alban, Gwlad yr Iâ, y Ffindir a Seland Newydd
- Cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb
- Adroddiad Blynyddol ar gynnydd tuag at ei hamcanion llesiant

### 2021

- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru yn ymchwilio i rwystrau gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddiwygiadau I'r dangosyddion cenedlaethol i adlewyrchu ar Covid-19 – ychwanegwyd 4 dangosydd newydd
- Cyhoeddi Mwy Nag Ailgylchu: Strategaeth Wastraff Cymru yn cael ei chyhoeddi
- Adrodd ar gynnydd amcanion llesiant a'r Rhaglen Lywodraethu (gan gynnwys 10 amcan llesiant y llywodraeth newydd)
- Llywodraeth Cymru yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar weithredu'r Ddeddf o fewn y Llywodraeth
- Cyhoeddi Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei chyhoeddi
- Cyhoeddi Cymru'r Dyfodol: y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Pholisi Cynllunio 11 yn cael eu cyhoeddi

### 2021

- 2021 - Cyhoeddi ail Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol i Gymru
- Ymgynghori a Chyhoeddi'r don gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol
- Cynnal dau ddigwyddiad rhithiol o ddigwyddiadau 'Cyfnewidfa Cenedlaethau'r Dyfodol'
- Gweithdai gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol
- Tîm Dyfodol Cynaliadwy yn comisiynu archwiliad mewnol wrth i Lywodraeth Cymru weithredu'r Ddeddf

### 2021

- Adroddiad Blynyddol ar gynnydd tuag at ei hamcanion llesiant
- Tudalen ymgyrch gyhoeddus newydd yn mynd yn fyw gyda chanllaw ac animeiddiadau hanfodol wedi'u diweddaru
- Llywodraeth Cymru'n cytuno i gynnal adolygiad i'r cyrff sy'n atebol i'r Ddeddf
- Llywodraeth Cymru yn sefydlu 'Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol'
- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal: canllaw mapio'
- Mae'r gwaith o atgyfnerthu'r ystod o gamau gweithredu i ymgorffori'r Ddeddf yn Llywodraeth Cymru ymhellach yn dechrau, yn seiliedig ar y Fframwaith Gweithredu Strategol a gytunwyd yn 2020

### 2022

- Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn dechrau Adolygiad Adran 20 o weithrediad Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf
- Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar ychwanegu 8 corff newydd i'r Ddeddf
- Cyhoeddir Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Ymgynghori a chyhoeddi ail don o Gerrig Milltir Cenedlaethol i Gymru
- Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu cynllun a chamau gweithredu i gyflymu a dyfnhau sut mae'r Llywodraeth yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan dynnu ar fewnwelediad o adolygiad S.20 wrth ganfyddiadau ddod i'r amlwg
- Cyflwyno Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) sy'n cynnwys cynigion sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf

Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales

# Pobl a Diwylliant



# Pobl a Diwylliant

## Pam fod diwylliant yn bwysig?

Ni siaradwyd gair mwy gwir erioed na'r hen ddywediad, 'culture eats strategy for breakfast'. Ym mhob math o drawsnewid, mae creu'r diwylliant cywir mewn sefydliad yn bwysicach nag unrhyw agwedd arall ar seilwaith cyflenwi. Nod y Ddeddf yw sbarduno'r newid diwylliannol mwyaf mewn gwasanaethau cyhoeddus, yr ydym wedi ceisio yn ddiweddar. Er mwyn cyflawni'r newid diwylliannol hwn yng Nghymru, mae angen arweinyddiaeth glir a phwrpasol, gyda phob gwas sifil yn cymryd rhan, yn deall ac yn gwerthfawrogi eu rôl wrth gyflawni'r weledigaeth hon.

Pa bynnag brosesau neu strategaethau a all fod ar waith, mae'r canlyniadau y mae'r llywodraeth yn ceisio'u cyflawni i Gymru yn dibynnu ar y bobl sy'n defnyddio'r prosesau hyn ac yn cyflawni'r strategaethau hynny, sydd yn ei dro yn dibynnu i raddau helaeth ar arweinyddiaeth y sefydliad. Mae angen i swyddogion fod yn glir ynghylch y canlyniadau cynaliadwy a all helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a chael eu cefnogi i gymryd y dull cywir (gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio) i'w cyflawni. Mae angen iddynt hefyd ddeall a dathlu lle mae hyn yn digwydd yn dda a dysgu o ble nad yw.

> *"Mae diwylliant sefydliadol yn gwbl briodol yn cael ei ystyried fel y cryfder mwyaf sylfaenol a chyson o fewn unrhyw fusnes ac mae'n gysylltiedig â chynaliadwyedd. Mae diwylliant hefyd yn adran arwyddocaol sy'n meithrin sefydliad gweithredol. Mae diwylliant sefydliadol yn un o'r ffactorau pwysicaf, sy'n rheoli gallu, effeithiolrwydd, dygnwch a llwyddiant y cwmni."*
>
> **Mujin Marwan Attar** (International Journal of Business and Economics Research)

Mae brwdfrydedd a lefel dda o ymwybyddiaeth o fewn gwasanaeth sifil Cymru am weledigaeth y Ddeddf; cam cyntaf hanfodol ar y daith hon nad yw'n hawdd ei gyflawni. Mae newidiadau mawr mewn polisi, a amlinellir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, yn dangos bod newid mewn diwylliant ac, felly, o ran dull gweithredu mewn sawl rhan o'r llywodraeth, a bod y Ddeddf a'r pum ffordd o weithio yn cael eu deall a'u cymhwyso'n well ymhlith gweision sifil.

"...mae Llywodraeth Cymru wedi aeddfedu oherwydd y Deddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol]. Mae wedi darparu fframwaith ar gyfer sut rydym yn datblygu ac yn cyflawni polisi. Mae mor ddiddorol ei fod yn fewnol, yn ogystal ag yn allanol ... mae'n ... rhan o'r DNA."

"...yn y sefydliad cyfan, roedd llawer iawn o frwdfrydedd, ac ymrwymiad, a balchder yn yr hyn yr oedd pobl yn ei wneud ac roeddent yn dod ataf yn dweud, "mae hyn yn dda, mae hyn yn dda."

"...y rheswm i mi ymuno â Llywodraeth Cymru oedd oherwydd fy mod yn angerddol iawn am y Ddeddf Llesiant [Cenedlaethau'r Dyfodol]... dwi'n ei galw'n BFG... Cawr Mawr Cyfeillgar o'r Ddeddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol] a ddylai gwmpasu'r holl bolisi cyhoeddus."


"Mae yna falchder anhygoel ynddo, a'r ffaith ein bod ni'n dal i arwain y byd."

"...mae rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff a chyflwyno darnau o waith trwy lens cenedlaethau'r dyfodol yn bwysig iawn fel bod pobl yn gallu gweld y cysylltiad rhwng y darn o waith rydyn ni'n ei wneud...""

"...mae cael dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o Ddeddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol] yn gyffredinol yn ddefnyddiol ac rwy'n cefnogi hynny... rwy'n meddwl y dylai uwch swyddogion yn bendant feddu ar ddealltwriaeth dda o'r Ddeddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol] a'r cyfrifoldebau oddi tano o fewn eu hardaloedd."

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth sifil yng Nghymru wedi wynebu pwysau digynsail ar y gweithlu wrth iddo orfod gweithio (a pharhau i wneud hynny) drwy argyfyngau a heriau lluosog fel Brexit, pandemig Covid-19, y gwrthdaro yn Wcràin, a nawr yr argyfwng costau byw. Rwyf wedi gweld enghreifftiau gwych o le mae diwylliant y sefydliad - gyda fframwaith y Ddeddf yn darparu egwyddorion arweiniol - wedi bod yn allweddol wrth bennu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r heriau hyn, gan osod ymateb Cymru ar wahân i ymateb gwledydd eraill. Cafwyd rhai enghreifftiau rhagorol o arloesedd a gwydnwch sydd wedi deillio o waith caled gweision sifil drwy'r pandemig, y mae'n rhaid eu cydnabod ac adeiladu arnynt wrth i'r llywodraeth ymestyn ei hun ymhellach ar ei thaith i gyflawni gweledigaeth y Ddeddf.

**Ymrwymiad i'r Ddeddf fod yn weladwy ar yr wyneb yn:**




**Y Ddeddf yn rhan o ddiwylliant Llywodraeth Cymru**

> "pan fyddwch chi'n siarad â phobl y mae eu profiad ar hyn o bryd o wahaniaeth ac anfantais... mae yna ... sensitifrwydd ... o ran sut mae gennych chi ffocws priodol ar 'mewn gwirionedd, mae yna hawl yma, ar hyn o bryd,' arwyddocaol gwahaniaeth mewn canlyniadau... mae'n rhaid ymdrin â hynny fel mater ar hyn o bryd, cyn i chi ennill yr hawl i siarad am genedlaethau'r dyfodol."
>
> ***Gwas sifil Llywodraeth Cymru***

Mae sefydliadau allanol hefyd wedi dweud wrthyf fod ymateb i heriau parhaus yn atal gallu gweision sifil i ymarfer a chymhwyso meddwl hirdymor.

**Pwyntiau allweddol o beth yw'r bylchau o'n gweithdy hirdymor gyda Llywodraeth Cymru**

- Pwyntiau allweddol o beth yw'r bylchau o'n gweithdy hirdymor gyda Llywodraeth Cymru.
- Mae asesiadau staff yn gwobrwyo cyfra-niad unigol yn hytrach na chydweithio grŵp.
- Ychydig o'r setiau data y mae'r llywodraeth yn eu defnyddio sy'n ymwneud â'r hirdymor; gall cadw cofnodion fod yn wael.
- Strwythur trefniadol hierarchaidd, sy'n tueddu i leihau'r cyfleoedd ar gyfer meddwl dargyfeiriol am broblemau.
- Nid yw meddylfryd systemau yn arferol eto.
- Mae cyfyngiadau ar ddeddfwriaeth o ran creu newid - mae angen meithrin gallu, ailgynllunio seilwaith, a newid mewn normau beunyddiol i greu amodau ar gyfer newid system gyfan hefyd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn brin o bobl o ganlyniad i lymder. Mae amser yn adnodd cyfyngedig.
- Gall gallu polisi fod yn wan hefyd mewn rhai meysydd, felly mae'n werth integreiddio datblygiad gallu'r dyfodol gyda dulliau sydd hefyd yn helpu i atgyfnerthu gallu polisi.
- Mewn argyfwng, mae llawer o bolisi yn cael ei gyfeirio at flaenoriaethau uniongyrchol - angen dod o hyd i ffordd i fynegi nodau ty-mor hwy o fewn cyd-destun pwysau a blaenoriaethau tymor byr.
- Yn aml gall systemau technoleg osod cyfyngiadau ar ddulliau cydweithredol a ren-nir o ymdrin â pholisi.

Mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi cytuno â mi fod hwn yn faes y gellir ei wella. Mae dull dysgu byw a rhannu'r adolygiad hwn eisoes wedi ysgogi gwaith yn y maes hwn rhwng fy swyddfa, yr Ysgol Dyfodol Rhyngwladol a Llywodraeth Cymru – yn ddiweddar cynhaliwyd gweithdy dyfodol mewnol gyda swyddogion o wahanol adrannau Llywodraeth Cymru i ddeall y bylchau a'r cyfleoedd i wella'r ystyriaeth a'r defnydd o ragwelediad mewn llywodraeth. Mae cyfleoedd i wneud yn well a nodwyd yn y gweithdy wedi'u hychwanegu at yr adrannau Meysydd i'w Gwella ym mhenodau perthnasol yr adroddiad hwn.

*"Mae'n amlwg bod gwelliannau y gallwn eu gwneud o amgylch y dyfodol, ac rydym wedi nodi hynny fel rhan o'n rhaglen Llunio Dyfodol Cymru. Gwyddom ein bod am ddefnyddio'r adroddiad ar dueddiadau'r dyfodol, y cyhoeddiad neu'r diweddariad, fel mecanwaith i godi ymwybyddiaeth o dechnegau'r dyfodol a thystiolaeth am y dyfodol...gan weithio gyda Chomisiynydd [Cenedlaethau'r Dyfodol] yn y gofod hwnnw. Rwy'n meddwl bod gwelliannau i'w gwneud o hyd ym mhob un o'r pum ffordd o weithio."*

Roedd mynd i'r afael â thymor byr wrth wneud penderfyniadau yn un o brif nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fe'i cyhoeddwyd yn fyd-eang. Mae hirdymor hefyd yn un o'r pum ffordd o weithio, ac fel y cyfryw, mae'n hanfodol i weithrediad y Ddeddf.

Ceir cytundeb ynghylch pwysigrwydd meddwl yn hirdymor a llawer o frwdfrydedd dros y ffordd hon o weithio, sy'n allweddol i'w lwyddiant. Mae'n bryd bellach ymestyn y tu hwnt i frwdfrydedd a phocedi o arfer da ac arfogi pob gwas sifil â'r offer a'r galluoedd angenrheidiol i wreiddio'r ffordd hon o weithio'n fwy ystyrlon a chyson. Edrychaf ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall sut y gellir mynd â'r meysydd hyn i'w gwella ymhellach.

## Cynnydd a Wnaed:

- Brwdfrydedd sylweddol ar draws y sefydliad dros y Ddeddf a'i nodau.
- Ceir lefelau da o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf, yn enwedig mewn timau llunio polisi.
- Cydnabod yr angen i ddatblygu a gwella cyfathrebu o amgylch y Ddeddf.
- Mwy o arweinyddiaeth o amgylch y Ddeddf ar lefel wleidyddol a swyddogol.
- Mae deunyddiau hyfforddi allweddol fel sefydlu, hyfforddiant llunio polisi a basecamp ac ati yn cynnwys gwybodaeth am y Ddeddf, yn enwedig y modiwl 'Llunio Polisi yng nghyd-destun Cymru'.
- Datblygu'r fframwaith galluogrwydd polisi.
- Enghreifftiau da o ddulliau arloesol o gynyddu galluoedd.
- Enghreifftiau lluosog da o gymhwyso'r pum ffordd o weithio a dechrau meddwl yn fwy hirdymor.

## Pobl a Diwylliant: Elfennau Allweddol Gweithredu

Dylai unrhyw sefydliad sydd am weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 neu sydd am ddyfnhau eu gweithrediad o'r Ddeddf anelu at:

### Hirdymor

- Sicrhau bod pobl yn deall ac yn cydnabod gwerth meddwl hirdymor, yr angen am feddwl aml-genhedlaeth a symud i ffwrdd o wneud penderfyniadau adweithiol tymor byr
- Meithrin a meistroli technegau meddwl hirdymor i achub ar gyfleoedd hirdymor a lliniaru risgiau tymor byr a hirdymor
- Gwybod pryd a sut i gymhwyso meddwl hirdymor ac aml-genhedlaeth i alluogi ymyrraeth gynnar ac atal
- Rhannu dysgu a symud tuag at gydgynhyrchu o fewn gallu meddwl y sefydliad ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod bylchau mewn gwybodaeth ac ymarfer wedi'u llenwi

### Atal

- Cydnabod gwerth atal a'r wahanol ffurfiau a lefelau
- Sicrhau dealltwriaeth glir ar draws y sefydliad o'r hyn sydd angen ei atal a'r hyn sydd wrth wraidd materion a heriau'r presennol a'r dyfodol
- Meithrin a meistroli technegau gwaith ataliol a symud i wariant ataliol i dorri cylchoedd negyddol a mynd i'r afael â heriau rhwng cenedlaethau
- Symud tuag at wytnwch y tu hwnt i fod yn barod ar gyfer argyfwng; cael timau addasol a gwydn a systemau dynol ac amgylcheddol a all ymateb, paratoi a mynd i'r afael â heriau'r dyfodol yn ogystal â heriau presennol

### Integreiddio

- Creu diwylliant corfforaethol cynhwysol a llywio camau gweithredu trwy weledigaeth integredig o bwrpas a gwaith mewnol, a lle mae'r holl amcanion llesiant yn cael eu deall yn glir ac yn atgyfnerthu ei gilydd
- Symud oddi wrth weithio mewn seilo i dimau ystwyth yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn osgoi dyblygu a datgloi synergeddau
- Sicrhau ystyriaeth systematig o amcanion, gwaith ac effaith timau a chyrff cyhoeddus eraill a rhannu arfer da
- Sicrhau bod pobl yn gallu gweld effeithiau a dibyniaethau materion sy'n ymwneud â'u gwaith, a chymryd gofal i atgyfnerthu gwaith ei gilydd ac i osgoi cael effeithiau andwyol
- Sicrhau bod pobl yn hyderus ac yn fodlon mynd y tu hwnt i'r galw wrth weithredu'r Ddeddf
- Sicrhau bod pobl yn deall ac yn cyflawni eu gwaith fel bod y Ddeddf llesiant wedi'i hintegreiddio'n llawn ar draws y timau, yn eu rhyngweithio a'u cydweithrediadau ag eraill a sicrhau bod y Ddeddf wedi'i hintegreiddio'n llawn â pholisïau a gofynion cyfreithiol eraill

### Cydweithio

- Cydnabod gwerth cydweithio a'r angen i symud tuag at brototeipio ac arloesi ar y cyd
- Sicrhau bod cydweithio yn digwydd ar bob cyfle o fewn y sefydliad a chyda phartneriaid allanol
- Sicrhau bod pobl yn gallu nodi partneriaid posibl perthnasol a'u bod yn gallu creu partneriaethau a chydweithio effeithiol i ddatgloi synergeddau
- Sicrhau bod pobl yn gwybod sut i feithrin perthnasau cryf ac adborth yn effeithiol sy'n cynyddu ymddiriedaeth yn fewnol a gyda phartneriaid a galluogi trawsffrwythloni sgiliau rhwng timau a phartneriaid
- Symud tuag at gyflawni'r cynllun corfforaethol sy'n cael ei wneud yn gynyddol trwy ariannu ar y cyd a darparu prosiectau ar y cyd

### Cynnwys

- Cydnabod gwerth ymglymiad a phrofiad byw o fewn diwylliant sy'n symud oddi wrth bai a chreu amgylcheddau dysgu diogel sy'n meithrin arloesedd
- Sicrhau bod y sefydliad yn hyrwyddo ac yn annog ethos o garedigrwydd, ymddiriedaeth ac empathi lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn barod i ddal ei gilydd yn atebol yn adeiladol gan fod pawb yn berchen ar y dull sefydliadol, y strwythurau llywodraethu a'r weledigaeth
- Sicrhau bod pawb yn estyn allan at bobl newydd y tu hwnt i'r hyn a ddrwgdybir mewn ffyrdd newydd i sicrhau bod safbwyntiau amrywiol y bobl mae gwaith y sefydliad yn effeithio arnynt yn cael eu hystyried
- Galluogi symudiad oddi wrth ymgynghori tuag at sgyrsiau dwy ffordd neu aml-ffordd barhaus a chyd-ddylunio ar bob cyfle

### Meysydd i'w gwella

- Adeiladu ar waith sydd eisoes yn hyfforddi datblygiad strategaeth gynhwysfawr hirdymor i helpu'r gwasanaeth sifil i wreiddio dyletswyddau ac elfennau'r Ddeddf ymhellach;
- Gwella cyfathrebu ar y Ddeddf yn fewnol ac yn allanol a'i chysylltu â naratif gwleidyddol a sefydliadol ehangach;
- Pontio'r bwlch rhwng ymwybyddiaeth a dealltwriaeth – nodi meysydd o ddealltwriaeth is o'r Arolwg Pobl a mynd i'r afael â hwy ar y lefel honno drwy roi amser, a chyfle i weision sifil ddysgu am weithrediad ymarferol y Ddeddf;
- Adeiladu ar, a rhannu enghreifftiau da ar draws y sefydliad o arloesi a mentrau a arweiniwyd gan weision sifil i wreiddio'r Ddeddf, (fel yr arfer da sy'n dod i'r amlwg wrth lunio polisïau) i gyflawni canlyniadau mewn meysydd a phroffesiynau eraill. Dylai hyn gynnwys arfer da a gwersi a ddysgwyd;
- Cynyddu cymorth i dimau corfforaethol ddeall a chymhwyso'r Ddeddf yn ymarferol i sicrhau bod cynaliadwyedd wedi'i wreiddio yn y 7 maes corfforaethol o newid yn y Canllawiau Statudol;
- Gwella eglurder a thryloywder o ran yr hyn a gyflawnir a'r hyn na weithiodd mewn adroddiadau blynyddol neu mewn mannau eraill;
- Egluro lefel neu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf yn ôl rôl swydd a phroffesiwn; a chynnwys elfen hyfforddiant gorfodol (fel modiwl Llunio Polisi yn y cyd-destun Cymreig ond wedi'i addasu i wahanol broffesiynau);
- Gwella gwybodaeth a defnydd o rai ffyrdd o weithio fel ataliaeth a hirdymor;
- Helpu arweinwyr gwleidyddol i roi llwyfan i'r hirdymor yn eu hymwneud â thimau polisi, er enghraifft drwy wneud y tymor hir yn glir mewn cyfarfodydd rheolaidd perthnasol;
- Gwella cyfleoedd ar gyfer meithrin gallu ym meddylfryd y llywodraeth am y dyfodol a chyfathrebu'n well effeithiau hirdymor polisïau ynghyd â'r tymor byr;
- Sicrhau bod amgylchedd diogel i roi cynnig ar arloesiadau a all weithiau fethu ond y gellir eu defnyddio fel cyfleoedd dysgu ar gyfer y dyfodol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Pennod proses



# Pennod proses

## Pam mae proses yn bwysig

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ysgogi newid yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud busnes; o gynllunio, datblygu a gweithredu mentrau polisi mawr i weithrediadau dydd i ddydd grantiau ariannu, yr hyfforddiant y maent yn ei ddarparu i staff a'r ffyrdd y maent yn adolygu eu mecanweithiau a'u prosesau mewnol.

Mae nifer o offer llunio polisi, dulliau gweithredu a mecanweithiau sicrwydd sy'n dangos cynnydd yn y ffordd y mae'r llywodraeth yn gwneud pethau. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys eu rhaglen ymchwil fewnol a thystiolaeth ar gyfer llunio polisi, eu Hasesiad Effaith Integredig, Sesiynau Dwys Gweinidogol, a Chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol. Fodd bynnag, mae meysydd eraill lle nad yw'r mecanweithiau sicrwydd wedi dangos sut y mae'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith.

Mewn llawer o achosion mae Llywodraeth Cymru wedi mynd y tu hwnt i'r hyn y mae llywodraethau eraill wedi gallu ei gyflawni mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, maent yn parhau i fireinio a gweithredu dull integredig sy'n asesu effaith polisi, wedi'i lywio'n benodol gan y dimensiynau llesiant a'r ffyrdd o weithio yn y Ddeddf. Er mwyn parhau i arwain y byd yn y maes hwn, dylai Llywodraeth Cymru bellach adeiladu ar yr arloesedd hwn, gwella'r modd y caiff ei gymhwyso'n barhaus a dod o hyd i ffyrdd o fonitro a gwerthuso'r gwaith o lunio polisïau integredig gan sicrhau bod y prosesau sy'n cefnogi'r Ddeddf yn gweithio'n unol â'r bwriad. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar sut y mae'n mesur effeithiolrwydd ei swyddogaeth llunio polisi fel rhan o'i Fframwaith Perfformiad. Mae hyn yn tynnu ar feini prawf y Mynegai Llywodraethu Cynaliadwy.

**Yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 argymhellais y canlynol:**

> "Dylai pob corff cyhoeddus a BGC (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) sicrhau eu bod yn symud y tu hwnt i ymarferion papur, cynyddu dealltwriaeth staff a darparu her adeiladol i ddangos sut mae'r Pum Ffordd o Weithio wedi'u cymhwyso, yn benodol sut y gellir gwneud y mwyaf o gyfraniad at nodau ac amcanion."

Nid oes unrhyw ganllawiau na dull 'oddi ar y silff' i ddangos effaith ar y Ddeddf, felly mae hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus arddangos hyn.

**Mae canllaw Gwneud Penderfyniadau Da gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod angen i gyrff cyhoeddus:**

> "sicrhau bod ganddynt gofnod dogfennol clir o'u hystyriaethau, gan osod naratif o sut yr ystyriwyd y ffactorau a'r casgliadau y daeth y cyrff iddynt, ar ôl pwyso a mesur y ffactorau yn erbyn ei gilydd ac unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad."

Rhannodd Llywodraeth Cymru â mi fecanweithiau lluosog a meysydd y maent yn cymhwyso'r Ddeddf yn eu prosesau. Rwyf wedi canolbwyntio'r bennod hon yn benodol ar 'Lunio Polisi' ac 'Atebolrwydd a Sicrwydd' gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod y rhain yn feysydd hollbwysig, a all sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei chymhwyso'n effeithiol ar draws y sefydliad.

## Llunio polisi

### Canfyddiad:

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ysgogi newidiadau yn y ffyrdd y mae polisïau'n cael eu datblygu, eu dylunio a'u gweithredu ond nid yw eto'n cael ei gymhwyso'n gyson mewn ffordd sy'n gwreiddio pob agwedd o'r Ddeddf, nac ar draws y sefydliad cyfan.

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth yr wyf wedi'i gweld, gan gynnwys y llu o ddatblygiadau polisi a amlinellwyd drwy gydol yr adroddiad hwn, fod y Ddeddf yn ysgogi newid yn y system.

Mae timau polisi yn ymdrechu i gymhwyso'r Ddeddf yn wyneb pwysau cystadleuol a llwythi gwaith cynyddol. Rwyf wedi clywed bod timau'n asesu effaith ehangach eu polisïau ar sectorau eraill yn barhaus, ac yn mynd ati'n rhagweithiol i wneud cysylltiadau â thimau eraill o ganlyniad.

Mae'r Ddeddf wedi'i defnyddio fel arf i gynnal cydbwysedd cyson rhwng nodau llesiant; er enghraifft, gan y tîm trafnidiaeth i sicrhau bod agweddau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys ochr yn ochr â'r ymgyrch i ddatgarboneiddio.

Rwyf wedi nodi ystod o ddulliau newydd o gymhwyso'r pum ffordd o weithio a chysylltu penderfyniadau a pholisïau yn ôl i gyflawni amcanion llesiant y llywodraeth. Mae rhai o'r rhain i'w gweld isod.



## Cydweithio

- Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, yn manylu ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydweithio â phartneriaid ar gyflawni'r strategaeth.
- Ar gyfer cynllun Gwrth-Hiliaeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â grwpiau rhanddeiliaid lleiafrifoedd ethnig i ddatblygu camau gweithredu'r cynllun.
- Bu cydweithio agos rhwng y Timau Trafnidiaeth a Chynllunio wrth ddatblygu Llwybr Newydd a Dyfodol Cymru.
- Wrth ddatblygu Sero Net Cymru, Cyllideb Carbon 2, gwnaeth y tîm lawer o waith i ddod â gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru ynghyd. Mae llawer o ffocws hefyd ar gydweithio, ar ffurf dull Tîm Cymru, wrth gyflawni'r cynllun.

## Cynnwys

- Dechreuodd y Strategaeth Wastraff, Mwy Nag Ailgylchu, gyda chyfranogiad helaeth gan randdeiliaid a chymunedau mewn fformatau amrywiol.
- Roedd cynnwys y gymuned yn ganolog i Wrth-Hiliaeth Cymru gyda llunwyr polisi yn cael eu paru â mentor cymunedol.
- Roedd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, yn cydnabod gwerth cydgynhyrchu gyda rhanddeiliaid a rhoddwyd cyfleoedd lluosog i gymryd rhan yn natblygiad y strategaeth.

## Integreiddio

- Cynhaliodd y Strategaeth Wastraff, Mwy Nag Ailgylchu, asesiad llesiant gwirfoddol i fapio ei gyfraniad ar draws yr holl nodau.
- Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu sut mae ei ganlyniadau yn effeithio ar y nodau llesiant.
- Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol, yn amlinellu ar dudalen yr holl ddyletswyddau ac ystyriaethau (gan gynnwys y Ddeddf a'r Rhaglen Lywodraethu) i sicrhau integreiddio.
- Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn defnyddio'r Cerrig Milltir Cenedlaethol fel mesurau ar gyfer llwyddiant.

## Hirdymor

- Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, yn edrych 20 mlynedd i'r dyfodol ac yn cynnwys uchelgeisiau hirdymor.
- Mae'r Strategaeth Wastraff, Mwy Nag Ailgylchu, yn llwybr hirdymor hyd at 2050 ac mae'n cynnwys uchelgeisiau tymor byr, canolig a hir.
- Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol, yn gynllun gofodol 20 mlynedd i Gymru.

## Atal

- Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion sy'n codi o drafnidiaeth ac atal teithiau car diangen yn y lle cyntaf.
- Mae'r Strategaeth Wastraff, Mwy Nag Ailgylchu, yn canolbwyntio ar atal difrod amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol pellach sy'n deillio o economi bennaf-linellol Cymru.

Mae fy nhystiolaeth wedi dangos, fodd bynnag, bod amrywiaeth o ran pa mor effeithiol y mae gwahanol dimau yn defnyddio'r ffyrdd o weithio. Mae'n ymddangos bod cydweithredu, er enghraifft, yn haws ei ddeall a'i gymhwyso nag atal a'r hirdymor. Roedd fy sesiynau dwys i brentisiaethau yn cefnogi'r arsylwi hwn.

## Sut mae'r tîm Prentisiaethau yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio wrth lunio polisïau

### Yn gadarnhaol:

- Mae meddwl hirdymor yn cael ei ystyried mewn polisi prentisiaeth, gan gynnwys drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a phartneriaid allanol fel Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- Er mwyn integreiddio'n well â thimau eraill, mae'r Tîm Prentisiaethau wedi cynnal sesiynau her gyda'r adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes ehangach, gan gynnwys rhai sy'n canolbwyntio ar arfer da a dysgu ar y cyd.
- Mae'n ymddangos bod cydweithio rhwng timau Llywodraeth Cymru yn uchel, mae ymdrech dda i feithrin a chynnal cysylltiadau da ag adrannau eraill, megis cydweithio â'r tîm polisi gofal cymdeithasol a byrddau iechyd; tystiolaeth o gydweithio helaeth gyda chyrff megis Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- Ar atal, dywedodd y tîm wrthym eu bod wedi cynnal gweithdy i ystyried ataliaeth yng nghyd-destun prentisiaethau.

### Gall adeiladu ar arfer cyfredol:

- Mae'r tîm prentisiaethau wedi dweud wrthym fod Asesiad Effaith Integredig yn rhan o'r broses ond nad yw'n ddechrau ar integreiddio a meddwl hirdymor o bell ffordd – mae'n ffordd o brofi'r dull polisi. Hoffem ddeall yn well pa ddulliau eraill o integreiddio a meddwl hirdymor y mae'r tîm Prentisiaeth yn eu defnyddio.
- Mae cyfranogiad cyflogwyr a rhanddeiliaid yn gryf iawn. Mae'r tîm wedi ymrwymo i gynnwys cyflogwyr a rhanddeiliaid drwy gydol y prosesau datblygu polisi a rheoli contractau. Fodd bynnag, teimlai rhai o'n rhanddeiliaid y gellid gwella a chryfhau hyn yn benodol yn ystod y cam o gynllunio polisi.
- Mae'r tîm yn gwneud gwaith i amlygu a mapio sut mae prentisiaethau'n cyfrannu y tu hwnt i'r economi – at ddimensiwn llesiant cymdeithasol. Gellir ymestyn hyn i gynnwys y dimensiynau diwylliannol ac amgylcheddol hefyd.

### Gall adeiladu ar arfer cyfredol:

- Mae'r tîm prentisiaethau wedi dweud wrthym fod Asesiad Effaith Integredig yn rhan o'r broses ond nad yw'n ddechrau ar integreiddio a meddwl hirdymor o bell ffordd – mae'n ffordd o brofi'r dull polisi. Hoffem ddeall yn well pa ddulliau eraill o integreiddio a meddwl hirdymor y mae'r tîm Prentisiaeth yn eu defnyddio.
- Mae cyfranogiad cyflogwyr a rhanddeiliaid yn gryf iawn. Mae'r tîm wedi ymrwymo i gynnwys cyflogwyr a rhanddeiliaid drwy gydol y prosesau datblygu polisi a rheoli contractau. Fodd bynnag, teimlai rhai o'n rhanddeiliaid y gellid gwella a chryfhau hyn yn benodol yn ystod y cam o gynllunio polisi.
- Mae'r tîm yn gwneud gwaith i amlygu a mapio sut mae prentisiaethau'n cyfrannu y tu hwnt i'r economi – at ddimensiwn llesiant cymdeithasol. Gellir ymestyn hyn i gynnwys y dimensiynau diwylliannol ac amgylcheddol hefyd.

Nododd fy adolygiad ystod o offer llunio polisi, sy'n cyfrannu at weithredu'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae yna hefyd nifer o feysydd y gellid eu gwella i gefnogi swyddogion i sicrhau mwy o gysondeb wrth gymhwyso'r Ddeddf.

Mae'r offer sydd ar gael i swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnwys: yr Asesiad Effaith Integredig, Canllawiau Llunio Polisi, y Fframwaith Gallu Polisi, Canllawiau Ymgynghori, Hyfforddiant Polisi, a Sesiynau Dwys i Weinidogion. Nododd fy adolygiad o'r offer hyn fod rhinweddau iddynt ond, mewn rhai achosion, eu bod yn colli cyfleoedd i gyfeirio at y Ddeddf a chefnogi gweithrediad y Ddeddf. Mae rhai ohonynt yn cyfeirio at y Ddeddf fel dyletswydd ychwanegol, wedi'i datgymalu oddi wrth eraill, yn hytrach nag fel fframwaith o amgylch popeth y mae'r llywodraeth yn ei wneud.

Rwyf wedi canfod bod offer llunio polisi mewn rhai meysydd yn colli cyfleoedd i ddatblygu dysgu a dealltwriaeth. Er enghraifft, nid yw'n glir sut mae'r Canllawiau Ymgynghori yn sicrhau bod y Ddeddf yn bresennol drwy gydol ymgynghoriadau. Yn 2021, dim ond 5% o ymgynghoriadau a soniodd am y Ddeddf yn eu cwestiynau, gan anwybyddu'r cyfle i fframio ymatebion o fewn gofynion y Ddeddf.

Enghraifft arall yw'r canllawiau Asesiad Effaith Integredig a allai fynd ymhellach i gefnogi staff i ddeall y nodau llesiant a chyfeirio swyddogion at fecanweithiau cymorth eraill. Mae angen dealltwriaeth lawn a chywir wrth gwblhau'r cam llunio polisi hanfodol hwn. Mae'r adolygiad hwn wedi dod o hyd i dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw hyn bob amser yn wir (gweler y bennod ar Pobl a Diwylliant).

Gallai'r **Canllawiau Cyflawni Polisi** (Llawlyfr Llunio Polisi) sy'n cefnogi gweision sifil i ddylunio a datblygu polisiau a strategaethau, ddarparu mwy o ddyfnder yn ei drafodaeth ar y Ddeddf. Wrth amlinellu dulliau a ddylai fod ag ystyriaethau hirdymor, er enghraifft, nid oes unrhyw sôn am dueddiadau'r dyfodol. O ran atal, dylid manylu mwy ar nodi a mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol a cheisio dod o hyd i broblemau posibl cyn iddynt gydio. Yn ogystal, er bod atal wrth wraidd Asesiadau Effaith Integredig, mae angen ystyried atal ar bob cam o'r gylchred polisi. Felly, gallai nodi "dyma ddiben Asesiadau Effaith" yn adran atal y Llawlyfr Llunio Polisi fod yn gamarweiniol i swyddogion. Wrth gyfathrebu natur gyfannol y Ddeddf gyda'r ffaith y dylid ystyried y ffyrdd o weithio a'r nodau llesiant gyda'i gilydd, caiff yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei hepgor. Mae hon yn rhan greiddiol o'r Ddeddf ac felly dylid rhoi cymaint o bwyslais arno â'r rhannau eraill wrth ystyried llunio polisïau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod ar daith eu hunain yn gweithio i ddod o hyd i'r gyfres orau o offer a phrosesau i gefnogi a dangos tystiolaeth o gymhwyso'r Ddeddf. Nodais ddatblygiadau cadarnhaol o ran gwreiddio'r Ddeddf yn yr Offeryn Adrodd Gwybodaeth Busnes, a ddefnyddir gan Ddirprwy Gyfarwyddwyr i gasglu diweddariadau misol ar gyfer holl ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys amcanion llesiant. Caiff y wybodaeth hon ei monitro'n fisol i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn yr holl amcanion a gellir cymryd camau unioni os nad yw'r cynnydd ar y trywydd iawn.

Un o'r gwelliannau allweddol yn y system hon yw'r ffordd y mae'n cefnogi integreiddio a chydweithio. Gall hyn gysylltu gweithgareddau â'r amcanion a'r camau llesiant, gan ddangos cysylltiadau rhwng gwahanol ymrwymiadau a pholisïau; darparu mwy o oruchwyliaeth o gynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ei hamcanion.

## Yr Offeryn Adrodd Gwybodaeth Busnes:

Darparu dull syml a chyson o gofnodi, ac adrodd yn erbyn ymrwymiadau a blaenoriaethau:

- Galluogi arweinwyr ar bob lefel i fonitro cyflawniad
- Yn safoni'r gwaith o reoli ac adrodd ar risgiau fel y gellir rhoi camau gweithredu ar waith i'w lliniaru neu eu rheoli
- Caniatáu i is-adrannau ac adrannau adrodd ar y camau mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr iddynt
- Mae ganddo ryngwyneb defnyddiwr greddfol gydag offer adrodd hyblyg
- Galluogi i adrodd yn ddwyieithog ac wedi gwella hygyrchedd
- Darparu un set o wybodaeth ar gynnydd cyflawni

Mae mwyafrif y gweision sifil y siaradodd fy nhîm â nhw yn cytuno bod BIRT yn welliant cadarnhaol a'i fod yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, clywais gan un gwas sifil fod ymyriadau weithiau'n cael eu datblygu a'u cwblhau ar ormod o frys i'w cynnwys ar BIRT.

Yn gadarnhaol, croesawaf syniadau gan rai o swyddogion Llywodraeth Cymru ar sut y gellid ei wella ymhellach, tu hwnt i arferion rheolaeth, er enghraifft drwy ymgorffori cyfraniadau tystiolaeth ochr yn ochr ag amcanion polisi yn yr offeryn. Er mwyn sicrhau bod manteision y system hon yn cyrraedd eu llawn botensial, dylid annog swyddogion i ddefnyddio hyn yn rhagweithiol yn ystod y broses o lunio polisïau i wella cyfleoedd ar gyfer integreiddio, gan fy mod wedi clywed rhai adroddiadau y caiff ei ddefnyddio'n rhy syml weithiau. Offeryn i ychwanegu gwybodaeth am eich gwaith heb wedyn edrych ar draws y gwasanaeth sifil i weld beth mae eraill yn ei wneud ac integreiddio gwaith. Byddai cynnwys amser penodedig i wirio'r offeryn o fewn prosesau llunio polisi (gyda hwn yn cael ei fonitro gan arweinwyr tîm), yn ogystal â'i integreiddio mewn cyfarfodydd tîm yn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Darganfûm hefyd enghreifftiau o ddulliau newydd sy'n cael eu datblygu i greu lle ar gyfer meddwl integredig hirdymor.

## Enghraifft o arfer da:

Mae'r Fforwm Polisi yn dod â Dirprwy Gyfarwyddwyr o bob rhan o'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd i drafod prosiectau y maent yn gweithio arnynt yn unol ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys ystyriaethau ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r gweision sifil sy'n trefnu hyn yn ceisio sicrhau integreiddio a chydweithio drwy wahodd cydweithwyr o'r tu allan i'r grŵp, a mynd at grwpiau eraill i ddod â safbwynt iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Fforwm Polisi ymarfer sganio'r gorwel er mwyn i Gyfarwyddwyr a Dirprwy Gyfarwyddwyr feddwl am dueddiadau a heriau tymor hwy. Fe wnaethant ddefnyddio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, ymuno â'r gwaith hwn â'r themâu a nodir yn yr adroddiad, a gwneud dadansoddiad PESTLE i sicrhau eu bod yn cynnwys gwaith rhagweledïad yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.





## Asesiadau Effaith Integredig

Mae Asesiadau Effaith yn helpu llunwyr polisi i sicrhau bod rhanddeiliaid perthnasol a rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu hystyried yn eu cynnig polisi. Mae hyn, yn ei dro, yn caniatáu iddynt asesu'r effeithiau posibl y gallai eu cynnig eu cael, gan eu galluogi i atal problemau posibl yn y cam datblygu.

Mae fy ymchwil a'm sgyrsiau â gwledydd eraill a rhwydweithiau byd-eang yn awgrymu y gellir ystyried bod Llywodraeth Cymru yn arloesol o ran datblygu Asesiad Effaith Integredig. Nod y ddogfen yw llunio'r amrywiol ddyletswyddau a gofynion y mae angen i lunwyr polisi eu hystyried, megis y Ddeddf, mewn ffordd gyfannol a chynhwysfawr. Mae'r pum ffordd o weithio yn ganolog i'r broses hon, a gofynnir i swyddogion egluro sut y mae'r cynnig wedi, neu yn mynd i gymhwyso pob un ohonynt.

Er bod Asesiadau Effaith Integredig yn offeryn defnyddiol ar gyfer llunio rhwymedigaethau polisi, mae gwelliannau y mae angen eu gwneud i sicrhau bod eu diben uchelgeisiol yn cael ei wireddu'n ymarferol.

Mae dyletswyddau'r Ddeddf wedi'u gwahanu yn eu hadran unigol eu hunain yn hytrach na'u hintegreiddio o fewn ac o amgylch dyletswyddau deddfwriaethol eraill. Mae cyfleoedd wedi'u colli i atgoffa gweision sifil o wahanol elfennau o'r Ddeddf. Gallai'r Asesiadau Effaith Integredig ddangos sut y maent yn cysylltu â dyletswyddau eraill ac yn gwneud cynnydd pellach tuag atynt, er enghraifft, Deddf Cydraddoldeb 2010, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Caiff hyn ei adleisio gan adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Archwilio Cymru, sy'n datgan bod**

*"rhan fwyaf o asesiadau integredig yn cynnwys casglu asesiadau effaith ar wahân ar ddogfen dempled."*

Mae Asesiadau Effaith Integredig yn cael eu gweld yn bennaf fel gwelliant cadarnhaol gan y gweision sifil y siaradais â nhw yn ystod yr adolygiad hwn. Yr wyf, fodd bynnag, wedi clywed pryderon gan sawl uwch weision sifil fod yr asesiadau hyn yn cael eu defnyddio ar y diwedd, yn hytrach nag ar ddechrau'r broses. Nododd rhai swyddogion polisi hefyd fod ehangder yr Asesiadau Effaith Integredig yn frawychus, a bod yr angen i ymateb i heriau'n gyflym yn gallu effeithio ar lefel y manylder a'r amser y gall gweision sifil ei roi i'r broses hon.

Edrychodd fy nhîm ar saith Asesiad Effaith Integredig a gwblhawyd i bennu sut y cânt eu defnyddio'n ymarferol. Mae anghysondeb o ran sut mae swyddogion yn cwblhau'r templed, gan gynnwys faint o fanylion sydd wedi'u cynnwys ar y Ddeddf. Mae llawer o enghreifftiau cadarnhaol gyda llawer o fanylion ac ystyriaethau o'r Ddeddf, ond mae eraill sy'n anwybyddu rhai o elfennau'r Ddeddf. Er enghraifft, nid oedd nifer o'r asesiadau a rannwyd â mi gan Lywodraeth Cymru yn sôn am yr holl ffyrdd o weithio.

Dywedodd rhai gweision sifil wrthyf ei bod hi'n heriol i gwblhau'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer ymyriadau brys; ac os felly, mae'n rhaid casglu data at ei gilydd yn gyflym iawn ac, o ganlyniad, nid yw asesiad bob amser yn cael ei gwblhau. Fy marn i yw bod defnydd mwy effeithiol o'r offeryn hwn yn digwydd pan fydd casglu tystiolaeth a dealltwriaeth o faterion cyfredol a hirdymor, a'u pwyntiau o integreiddio â meysydd polisi eraill, wedi'u gwreiddio ym musnes gweision sifil o ddydd i ddydd. Gall y dull hwn arwain yn fwy effeithiol at ystyriaethau hirdymor gan lywio dulliau polisi yn barhaus, yn ogystal â sicrhau gwell dealltwriaeth o effeithiau posibl.

> "... mae yna wobr fawr i ni mewn cael y pethau hyn mewn gwirionedd... wedi'u cloi i mewn i'n systemau, ein prosesau a'n gweithredoedd; yn hytrach na'i gael fel troshaen... llwyddiant yw peidio â chael person llesiant cenedlaethau'r dyfodol penodol ym mhob cyfarfod neu eitem benodol ar yr agenda ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol... ei gynnwys a'i sylwedd yw ei ddiben, wedi'i ymgorffori'n llawn yn yr hyn yr ydym yn ei wneud."
>
> ***Gwas sifil Llywodraeth Cymru***

Drwy ddatblygu a defnyddio Asesiadau Effaith Integredig, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni rhywbeth y mae llywodraethau rhyngwladol eraill yn ei chael yn anodd ei gyflawni. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gynyddu ei effeithiolrwydd o ran ei gynnwys a'r modd y'i cymhwysir a ddylai fod yn rhan o'u Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae polisïau a chanllawiau newydd sy'n dod gan Lywodraeth Cymru yn arwydd o'r esblygiad cadarnhaol o fewn offer a dulliau llunio polisi sydd wedi'u cynllunio i roi'r Ddeddf ar waith yn well.

Y camau nesaf y mae angen i'r llywodraeth eu cymryd yw sicrhau bod rhaglen o welliant parhaus; egluro sut y defnyddir a chymhwysir yr offer hwn ar draws y sefydliad, gan ganiatáu amser i weision sifil i'w datblygu a'u hadolygu'n rhagweithiol. Dylid arddangos y cymhwysiad enghreifftiau gorau a'i rannu, fel y gall gweision cyhoeddus eraill ddysgu ohono.

Mae hefyd angen gwerthuso effeithiolrwydd yr offer hyn yn well a sut mae eu defnydd yn trosi'n ganlyniadau polisi cadarnhaol. Er enghraifft, a gyflawnodd y Strategaeth Cyflogadwyedd aei heffaith arfaethedig at gyflawni'r amcan llesiant i 'Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio' fel y rhagwelwyd? A oes unrhyw amcanion aneconomaidd eraill y gallai fod wedi cyfrannu atynt, ond na wnaethant? Ni allwn ddod o hyd i'r lefel hon o werthuso polisi o fewn y llywodraeth. Gallai'r llywodraeth, ac yn wir y sector cyhoeddus ehangach, elwa ar yr hyn a ddysgwyd o'r math hwn o werthusiad. Mynegwyd pryderon y gall y diffyg gwerthuso hwn o effaith polisi lesteirio gallu gweision sifil i adeiladu ar flaenoriaeth dda a dysgu o arfer blaenorol.

Nododd arweinwyr ifanc Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol bryderon tebyg, gyda risg o weld polisi'n ddi-siâp oherwydd ei bod yn anodd monitro effaith.


Yn galonogol, dywedwyd wrth fy nhîm fod yna arferiad o Sesiynau Dwys Gweinidogol mewn rhai adrannau; lle mae'r Gweinidog sy'n gyfrifol yn gwirio datblygiad hanesyddol targed heriol i ddeall yn well ble y gallai unrhyw rwystrau fod. Un enghraifft o'r dull hwn yw'r Sesiwn Dwys Coed a Phren. Roedd y Sesiwn Dwys hwn yn cynnwys sefydlu tasglu o arbenigwyr yn y maes a chynnal cyfres o gyfarfodydd bord gron i gynnwys y rhai sy'n gweithredu polisi. Pwrpas y Sesiynau Dwys oedd adolygu'r dystiolaeth gyfredol a beth sy'n eu gyrru, rhwystrau ac atebion i greu coetir.

Er ei fod yn ymrwymiad trylwyr, ni chaiff y dull hwn ei gymhwyso'n gyson ar draws pob portffolio. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y dull hwn yn cael ei lywio gan arweinyddiaeth y Gweinidog cyfrifol yn hytrach na mecanwaith cyson sy'n annog sesiynau dwys.


Gall adolygu a gwerthuso rheolaidd helpu i bontio'r bwlch gweithredu rhwng dyhead a chyflawni polisi (gweler Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 a'r bennod ar Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus). Felly, mae rhinwedd mewn gwreiddio'r dull hwn yn y system. Gall hyn sicrhau bod polisi newydd yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd o'i fersiynau blaenorol.

.

## Sut y mae




## Sut y dylai fod






## Atebolrwydd a Sicrwydd

**Canfyddiad:**
Mae gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth o fecanweithiau atebolrwydd mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond nid yw pob un yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Mae'n her i lywodraethau ddatblygu 'mecanweithiau proses' effeithiol sy'n gwirio cymhwysiad deddfwriaeth berthnasol wrth ddatblygu polisi, yn ogystal â llywodraethu'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o gynnydd wrth geisio cymhwyso gofynion mor eang yn eu fframweithiau atebolrwydd llywodraethu, ond yn y pen draw, mae dibyniaeth ar broses ond yn mynd â nhw at bellter cyfyngedig wrth weithredu'r Ddeddf.

Dylai'r prosesau hyn (ac yn rhannol) ddarparu ysgogiadau a thystiolaeth o sut mae'r Ddeddf yn cael ei chwymhwyso. Er mwyn gwella'r gweithredu ymhellach bydd angen cydnabod cyfyngiadau'r broses ac angen cydgysylltu hyn yn fwy effeithiol. Datblygu dealltwriaeth gweision sifil o ran pam a sut i gymhwyso'r Ddeddf, yn ogystal â sut i ddangos tystiolaeth ohoni a'i chofnodi. Er ei bod yn gadarnhaol gweld prosesau sicrwydd lluosog yn ceisio gwreiddio'r Ddeddf, nid yw'n glir ar hyn o bryd pa mor effeithiol yw'r rhain yn ymarferol, gan na chynhaliwyd unrhyw werthusiad o effeithiolrwydd cyffredinol y mecanweithiau sy'n rhoi sicrwydd ynghylch y Ddeddf.

Mae yna gyfres o fecanweithiau sicrwydd ac atebolrwydd sydd wedi datblygu dros y chwe blynedd diwethaf i roi sicrwydd a throsolwg ar y Ddeddf. Rwy'n ystyried bod rhai, ond nid pob un, yn cyrraedd eu potensial. Y prif reswm yw eu bod yn bodoli ar bapur ond yn ymddangos nad ydynt yn weithredol. Gellid datblygu ymhellach hefyd lefel dealltwriaeth y rhai y gofynnir iddynt roi sicrwydd.

Yn gadarnhaol, mae llawer o fecanweithiau atebolrwydd a sicrwydd, megis yr Holiadur Rheolaeth Fewnol, Cylch Gorchwyl Bwrdd Llywodraeth Cymru, sefydlu Hyrwyddwr Bwrdd, a'r Sesiynau Briffio Gweinidogol wedi'u diweddaru i adlewyrchu ac ymgorffori'r Ddeddf. Mae mwy o waith ar y gweill i gryfhau a gwella rhai meysydd fel gwelliant parhaus a swyddogaethau Bwrdd Llywodraeth Cymru gan sicrhau, pan fydd meysydd i'w gwella yn cael eu nodi gan fy Swyddfa neu Bwyllgorau'r Senedd, er enghraifft, bod hyn yn cael sylw, yn cael ei olrhain a'i fonitro'n briodol. Bu achosion yn y gorffennol pan nad yw hyn wedi cyrraedd y safon ac mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y materion hyn ac yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

Mae'n bwysig iawn bod cyrff cyhoeddus yn sefydlu mecanweithiau i ddeall cynnydd amcanion a chamau. Rwy'n croesawu cyflwyniad a diben o Is-bwyllgor y Cabinet ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu; a sefydlwyd i wella monitro rheolaidd, ac sy'n edrych yn benodol ar yr amcanion llesiant a'r camau neu'r ymrwymiadau a wnaed gan y llywodraeth i'w cyflawni. Fodd bynnag, nid oeddwn yn gallu asesu effeithiolrwydd y dull hwn yn llawn.

## Strwythurau atebolrwydd ac effeithiolrwydd

Pan ddechreuodd gweithredu'r Ddeddf, sefydlodd Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd, Grŵp Goruchwylio a Galluogi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - ***'grŵp trawslywodraethol sy'n cynnwys y rhai sy'n gyfrifol am elfennau statudol neu weithredol bwysig o ddyletswyddau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru o dan y Ddeddf'.***

Mae'r Grŵp hwn yn cael ei gadeirio gan Hyrwyddwr Bwrdd Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, sydd hefyd yn eistedd ar Fwrdd Llywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw at Hyrwyddwr y Bwrdd a'r Grŵp Goruchwylio a Galluogi yn ymateb Llywodraeth Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a edrychodd ar rwystrau i roi'r Ddeddf ar waith yn llwyddiannus, fel rhai o'r newidiadau allweddol y mae'r llywodraeth wedi'u gwneud i gefnogi gweithrediad y Ddeddf.

Disgwylir i'r Grŵp Goruchwylio a Galluogi gyfarfod yn fisol. Mewn gwirionedd, dim ond unwaith y mae wedi cyfarfod yn ystod 2020 ac unwaith yn 2021, yn ogystal ag unwaith ers dechrau'r adolygiad hwn. Dywedwyd wrthyf droeon y bydd y Grŵp yn mynd i'r afael â gwahanol gyngor ac argymhellion yr wyf wedi'u rhoi i Lywodraeth Cymru yn y gorffennol. Er enghraifft, yn eu hymateb i'r ymarfer hunanfyfyrio a gynhaliwyd gan fy Swyddfa a'r 44 o gyrff cyhoeddus ar y pryd (a gwmpesir gan y Ddeddf yn 2019), nododd Llywodraeth Cymru y byddai llawer o'r materion a nodwyd yn cael eu datblygu gan y Grŵp Goruchwylio a Galluogi. Un o'r materion hyn oedd ystyried mecanweithiau ar gyfer integreiddio gwell a darparu mecanwaith i oruchwylio cynnydd yn y saith maes corfforaethol o newid yn erbyn disgwyliadau'r Ddeddf ac nid wyf wedi cael sicrwydd o hyd mai felly y bu.

Yn yr un modd, dylai'r Grŵp fod wedi ystyried yr argymhellion yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, ond dim ond dwywaith y mae wedi'i gynnull ers cyhoeddi'r adroddiad.

Nid yw rôl yr Hyrwyddwr ychwaith wedi'i ddiffinio ar hyn o bryd o fewn cylch gorchwyl Bwrdd Llywodraeth Cymru.

> *"...mae angen i ni adolygu rôl [Hyrwyddwr y Bwrdd] sy'n dod allan o... y profiad pandemig... mae angen i ni fodloni ein hunain a oes ffordd wahanol o ddod â... egni a mewnwelediad i'r rôl honno."*
>
> **Ysgrifennydd Parhaol**

Er y dylid rhoi rhywfaint o ras oherwydd yr aflonyddwch digynsail a achoswyd gan y pandemig Covid-19; fel yr amlinellwyd uchod, yn ystod y cyfnod hwn roedd materion pwysig yn ymwneud â llywodraethu'r Ddeddf o fewn y llywodraeth. Nid yw'n glir sut yr aethpwyd i'r afael â'r cyngor, yr argymhellion, a'r heriau yr wyf wedi'u hamlinellu.

Ar bapur, mae cysylltiad cadarnhaol rhwng y Grŵp Goruchwylio a Galluogi hwn, y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthyf fod awydd i adfywio'r Grŵp Goruchwylio a Galluogi gan eu bod yn credu bod iddo ddiben a photensial. Rwy'n rhannu'r farn honno ac yn credu gyda sylw penodol, arweinyddiaeth ac adolygiad o'i ddiben a'i gylch gorchwyl y gallai ddod yn effeithiol.

> *"... rydym wedi mynd ymlaen o'r cam hwnnw; rydym wedi pasio ymlaen rai blynyddoedd yn ôl o fod angen rhoi hwb i'r holl beth... mae'n debyg y bydd angen i ni feddwl a yw hyn yn rôl i'r grŵp fel y mae? Ac os felly, beth yw'r pwrpas diwygiedig? Dydw i ddim yn meddwl ein bod ni ei angen ar y ffurf y bwriadwyd iddo fod yn wreiddiol."*
>
> **Gwas sifil Llywodraeth Cymru**

> *"... llawenydd y grŵp Goruchwylio a Galluogi, pan oedd yn arfer cyfarfod, oedd ei fod yn caniatáu i lawer o rannau strwythurol y Ddeddf ddod at ei gilydd a... gwneud yn siŵr ei fod yn ffordd gan Lywodraeth Cymru o wneud y pethau hyn yn ffordd integredig. A oes angen ei adnewyddu? Rwy'n meddwl bod angen adnewyddu unrhyw beth nad yw wedi'i fodloni ers cyhyd â hynny...mae'r byd o'n cwmpas wedi newid ac mae'r ecosystem yn Llywodraeth Cymru wedi newid. Byddai'n rhaid iddo edrych ar y cyd-destun y mae'n gweithio ynddo.*
>
> **Gwas sifil Llywodraeth Cymru**

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru (lle mae Hyrwyddwr y Bwrdd uchod hefyd yn eistedd) yn fecanwaith allweddol arall ar gyfer atebolrwydd ar y Ddeddf. Nid yw'n glir o'i gofnodion bod trafodaethau rheolaidd a chyson ynghylch y Ddeddf. Nid yw'r Ddeddf wedi'i chrybwyll ar yr agenda ers 13 Mawrth 2020, er bod rhai cyfeiriadau ati gan y rhai a oedd yn bresennol ar 16 Gorffennaf 2021. Pan holwyd swyddogion am hyn yn ystod yr adolygiad hwn, dywedodd swyddogion wrthyf nad yw'r cofnodion yn adlewyrchu'n gywir y drafodaeth ac efallai bod y Ddeddf wedi'i chrybwyll. O ystyried mai rhan allweddol o rôl y Bwrdd yw darparu "cyngor strategol ar gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol", efallai nad yw wedi cael ei ystyried neu beidio yn ddigon da. Mae angen adlewyrchiad mwy cywir o'r cofnodion.

O'r dystiolaeth a ddarparwyd, mae angen cryfhau effeithiolrwydd y mecanweithiau atebolrwydd a sicrwydd er mwyn fy sicrhau bod y Ddeddf wedi'i gwreiddio'n llawn o fewn llywodraethu.


Mewn cyferbyniad, mae'r Bwrdd Cysgodol a sefydlwyd yn ei ffurf bresennol yn hydref 2021 yn cael ei noddi a'i arwain gan Hyrwyddwr Bwrdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Cysgodol yn darparu cyngor strategol, her a sicrwydd i lywio gwaith Bwrdd Llywodraeth Cymru ac mae wedi mynd ymhellach tuag at sicrhau bod ystod amrywiol o leisiau'n cael eu clywed. Datblygwyd 'cwestiynau her' gan Hyrwyddwr Bwrdd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Bwrdd Cysgodol i roi'r Ddeddf ar waith. Mae hyn yn dangos integreiddio effeithiol ac enghraifft o'r hyn yr hoffwn ei weld mewn mecanweithiau atebolrwydd eraill.

**Roedd ymateb ysgrifenedig cychwynnol Llywodraeth Cymru i'm cwestiynau yn nodi:**

> *"Rydym wedi ceisio gweithio ar fodel gwasgaredig a dirprwyedig ar gyfer gweithredu'r Ddeddf er mwyn osgoi bod tîm canolog yn llwyr gyfrifol am nodi, goruchwylio a chyflawni newidiadau i bolisiau neu brosesau ar draws Llywodraeth Cymru, a gwreiddio newidiadau yn y mecanweithiau presennol. Mae hyn yn gyson â'r bwriad y tu ôl i'r Ddeddf i atal datblygu cynaliadwy rhag bod yn weithgaredd 'ychwanegol'."*

Er y gallaf weld rhinweddau hyn, un o'r prif heriau a nodwyd gennyf oedd deall y seilwaith atebolrwydd cymhleth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddatblygu o amgylch y Ddeddf. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw waith mapio wedi'i wneud i egluro sut mae'r holl fecanweithiau atebolrwydd hyn yn integreiddio ac yn rhyngweithio â'i gilydd. Nid yw ychwaith yn dangos yn glir pa fecanwaith sy'n adrodd i ba un a phwy ddylai fod yn rhoi sicrwydd rheolaidd ynghylch cynnydd y Ddeddf. Byddai cyfathrebu'r seilwaith hwn a sut mae'n rhyngweithio, yn gwneud llawer i ddarparu eglurder a thryloywder. Yn y pen draw, helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn ei mecanweithiau atebolrwydd a sicrwydd presennol.

# Atebolrwydd a Sicrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â Llywodraeth Cymru






## Holiadur Rheolaeth Fewnol

Mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori cwestiynau ar y Ddeddf yn y fframwaith rheoli sicrwydd mewnol drwy ei Holiadur Rheolaeth Fewnol. Mae'r Holiadur yn rhoi sicrwydd bod dyletswyddau a gofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni gan wahanol adrannau ac yn cael ei gwblhau gan Gyfarwyddwyr bob blwyddyn. Gweithiodd tîm yr Holiadur Rheolaeth Fewnol gyda'r Is-adran Dyfodol Cynaliadwy i gynyddu a gwella cwestiynau'n ymwneud â'r Ddeddf; cynnydd amlwg o'r iteriad blaenorol o'r holiadur a oedd yn cynnwys un cwestiwn yn unig ynghylch cymhwyso'r Ddeddf.

Darparodd Llywodraeth Cymru dempled yr Holiadur Rheolaeth Fewnol i mi ei adolygu. Gofynnais hefyd am gael gweld detholiad o holiaduron wedi'u cwblhau, ond dim ond un a gyflwynwyd i mi. Ystyriais y templed a'r holiadur wedi'i gwblhau, a darganfyddais fod y cwestiynau newydd yn ymdrin ag elfennau'r Ddeddf yn dda. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth ddyfnach i lefel y ddealltwriaeth ar gyfer y rhai sy'n cwblhau'r fframwaith, a'r uwch swyddogion sy'n goruchwylio. Er enghraifft, ni chafodd un o'r cwestiynau ynghylch y Ddeddf - **'Mae eich timau'n gwbl ymwybodol ac yn gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chyrff Cyhoeddus a ariennir yn uniongyrchol gennych chi wedi cael cymorth angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf?'** - yn cael ei ateb o gwbwl yn yr holiadur oedd wedi'i gwblhau; ac eto nodwyd bod gan yr adran, yr oedd yn rhan ohoni, 'Lefel Resymol o Sicrwydd'. Mae'r lefelau sicrwydd ar gyfer pob adran yn cael eu troi'n fap gwres, a rennir wedyn gyda'r arweinwyr ym mhob maes (sicrwydd). Yn yr achos hwn, byddai'r arweinydd ar gyfer sicrwydd ynghylch y Ddeddf wedi edrych ar y map gwres ac wedi gweld 'Lefel Resymol o Sicrwydd' ar gyfer yr adran hon, er na chafodd y cwestiwn uchod ar y Ddeddf ei ateb.

Rwy'n mynd i fwy o fanylion am faterion ymwybyddiaeth gweision sifil o wahanol elfennau o'r Ddeddf a'u cymhwysiad yn y bennod Pobl a Diwylliant.

Er y gallai'r Holiadur Rheolaeth Fewnol, fel mecanwaith sicrwydd cyffredinol, weithio'n dda iawn, o ran sicrwydd ynghylch y Ddeddf mae angen adolygu a chryfhau hyn.

> *"Ydyn ni'n gyson o gwmpas hyn i gyd? Ydw i'n meddwl mai'r Ddeddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol] yw'r rhan fwyaf datblygedig o'r broses ICQ (Holiadur Rheolaeth Fewnol)? Na, nid yw'n… mae'n gymharol newydd yn y cynllun mawreddog o bethau. Ac mae rhai o'r… elfennau craidd o gwmpas 'ydych chi wedi atal twyll' ac yn y blaen, wedi bod yno ers dechrau arni…byddwn yn disgwyl bod rhai elfennau datblygiadol i hynny. Ond fel mecanwaith, a yw'n un da? Ydy."*
>
> ***Gwas sifil Llywodraeth Cymru***

Fel y manylir yn yr adroddiad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthyf eu bod wedi cynnal hyfforddiant amrywiol ar y Ddeddf a'i bod wedi'i hintegreiddio'n dda yn eu prosesau. Yn ddi-os, mae lefel o ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf ac, ar y cyfan, cefnogaeth gan swyddogion ar weledigaeth y Ddeddf. Fodd bynnag, nodais yma ac mewn mannau eraill rai camddehongliadau bod diffyg eglurder a hyder ymhlith rhai swyddogion. Gellid, a dylid, mynd i'r afael â hyn trwy ddysgu a datblygu priodol; arddangos arfer da a nodi cyfleoedd dysgu o fannau tlotach.

## Mecanweithiau sicrwydd eraill

Mae'n ymddangos gan nifer o swyddogion eu bod yn hyderus bod y mecanweithiau sicrwydd yn gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae adroddiadau cyferbyniol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch sut mae rhai prosesau sicrwydd yn gweithio'n ymarferol, megis y broses Cyngor Gweinidogol, er enghraifft.

Mae rhai swyddogion o'r farn mai'r Briffiau Cyngor Gweinidogol yw diwedd y broses llunio polisi, gan gydgrynhoi tystiolaeth ar ôl iddi gael ei mireinio a'i gwirio yn ystod camau cynharach a chyflwyno amcanion a dulliau clir ar gyfer gweithredu polisi penodol i'w gymeradwyo gan Weinidogion.

Mae rhai uwch swyddogion wedi dweud wrthyf fod y papurau briffio hyn yn cael eu gwirio ar sawl lefel o'r sefydliad, gan gynnwys fel mater o drefn ar: lefel Dirprwy Gyfarwyddwr, weithiau ar lefel Cyfarwyddwr, ac o bosibl ar lefel Cyfarwyddwr Cyffredinol i'w gymeradwyo o dan set o brotocolau llywodraethu gan gynnwys y Ddeddf, neu lle mae'n wyriad mawr oddi wrth y polisi presennol. Ochr yn ochr â hyn, mae Timau Gweithrediadau yn monitro pa sesiynau briffio sy'n dod i mewn, a gwneir gwiriadau ar hap i edrych ar y rhain yn fanylach. Fodd bynnag, mae uwch swyddogion wedi cydnabod, er gwaethaf y mecanweithiau sicrwydd hyn sydd ar waith, nad yw'n bosibl i bob sesiwn friffio gael ei wirio'n drylwyr oherwydd bod nifer y rhain yn dod drwodd a phwysau amser cystadleuol.

Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw'r prosesau presennol i bob pwrpas yn sicrhau bod pob elfen o'r Ddeddf, yn enwedig y pum ffordd o weithio, yn chwarae rhan ganolog mewn datblygu polisi. Yn absenoldeb prof ion yn y fan a'r lle a gwerthusiad cyffredinol o effeithiolrwydd y mecanweithiau, bydd Llywodraeth Cymru yn ei chael yn anodd nodi a mynd i'r afael â meysydd lle na chaiff y Ddeddf ei chymhwyso'n briodol o bosibl; lle mae diffyg dealltwriaeth gan y rhai sy'n ei gymhwyso, neu lle nad yw'r mecanwaith yn syml yn cynorthwyo i roi sicrwydd ymarferol.

Y cam nesaf ar y daith, felly, fydd cynnwys herio a gwerthuso adeiladol yn y system mewn ffordd sy'n ysgogi dysgu o feysydd lle mae'r Ddeddf wedi'i chymhwyso'n effeithiol, a lle y gellir ei gwella.

> **Sesiynau Dwys mewn Sgiliau / Arfer Da:**
> Yn galonogol, mae Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes wedi ychwanegu lefel ychwanegol o sicrwydd trwy gynnal sesiynau her adrannol lle mae timau amrywiol yn clywed am brosiectau ei gilydd ac yn gallu gofyn cwestiynau, gwneud awgrymiadau a sicrhau integreiddio o fewn yr adran.

Un maes pwysig lle byddwn yn hoffi gweld mwy o eglurder a sicrwydd yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gosod ac yn adolygu eu hamcanion llesiant. Rwy'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi meini prawf clir ar gyfer pennu ac adolygu amcanion llesiant. Gall hyn ddarparu lefel arall o sicrwydd mewnol a galluogi atebolrwydd a thryloywder allanol.

Nodaf hefyd ganfyddiadau archwiliad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol o osod amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, a nodir yn y llythyr hwn at yr Ysgrifennydd Parhaol. Roedd canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys: ***"er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd camau i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei phrosesau a'i harferion ehangach, nid yw wedi darparu tystiolaeth ategol glir i ddangos sut y mae wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth osod ei hamcanion llesiant".***

Canfu'r Archwilydd Cyffredinol hefyd y gallai ***"adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru gael eu cryfhau i gynorthwyo cynllunio a chefnogi atebolrwydd. Maent yn disgrifio cyflawniadau, wedi'u grwpio yn ôl themâu trawsbynciol, ac mae'r atodiad ategol yn nodi cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu. Fodd bynnag, mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwerthuso cynnydd cyffredinol yn erbyn pob amcan llesiant a nodi pa gamau pellach neu wahanol y gallai fod angen eu cymryd i'w cyflawni."*** Mae'r dystiolaeth a welais yn cyd-fynd â'r canfyddiad hwn.

Mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn cael eu defnyddio'n glir yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn pennu, yn adolygu ac yn adrodd ar gynnydd eu hamcanion a'u camau llesiant.

## Cynnydd a wnaed

- Deddf integredig mewn offer a chanllawiau llunio polisi allweddol
- Enghreifftiau da lluosog o'r pum ffordd o weithio sy'n cael eu defnyddio wrth lunio polisïau
- Mae'r Offeryn Adrodd Gwybodaeth Busnes yn darparu offeryn ar gyfer adrodd ar amcanion llesiant ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu
- Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn arwain y byd
- Cefnogi'r Bwrdd Cysgodol i herio'n adeiladol sut mae'r Ddeddf wedi'i chymhwyso
- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn canolbwyntio ar y Ddeddf
- Arolwg pobl yn gofyn cwestiynau am y pum ffordd o weithio

## Proses: Elfennau allweddol o'r Gweithredu

Dylai unrhyw sefydliad sy'n dymuno gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 neu ddyfnhau eu gweithrediad o'r Ddeddf anelu at:

### Hirdymor:

- Cael gweledigaeth 25+ mlynedd glir, wedi'i datblygu ar y cyd, o'r dyfodol hirdymor dymunol, gyda graddfeydd amser gwahanol
- Cael tueddiadau ac offer cryf a hawdd eu defnyddio yn y dyfodol, gan gynnwys gwahanol senarios sy'n galluogi ymyrraeth ac atal cynnar
- Darparu seilwaith galluogi (e.e. cymunedau ymarfer) ac adnoddau i gefnogi gwybodaeth yn y dyfodol a gwybod sut i fanteisio ar gyfleoedd hirdymor a mynd I'r afael â heriau presennol a heriau'r dyfodol
- Defnyddio a datblygu offer i ymgorffori ystyriaeth o'r dyfodol mewn strategaeth a phenderfyniadau i sicrhau tegwch rhwng cenedlaethau

### Integreiddio:

- Sicrhau dealltwriaeth ac ystyried cyd-ddibyniaeth a chyd-gysylltiadau rhwng materion a gweithgareddau
- Integreiddio strategaethau, polisïau a chamau gweithredu â nodau cenedlaethol ac amcanion llesiant cryf (y sefydliad ac eraill), gwneud y mwyaf o gyfraniad i'r nodau cenedlaethol
- Galluogi integreiddio mewnol ac ystyried llesiant yn gyffredinol, gan ddileu rhwystrau yn enwedig yn y ffactorau gweithredol fel dyrannu adnoddau, prosesau cynllunio, datblygu sgiliau ac archwilio/gwerthuso
- Buddsoddi mewn deall cysylltiadau achosion, materion ac effeithiau, megis drwy Asesiadau Effaith Integredig
- Integreiddio camau gweithredu ac atebion trwy gydweithio ag eraill i ddatgloi synergeddau yn fewnol ac yn allanol

### Atal:

- Cofleidio a hyrwyddo atal a gwerthfawrogi ei werth hirdymor
- Sicrhau dealltwriaeth a defnydd priodol o'r gwahanol fathau o atal er mwyn cynyddu ei effeithlonrwydd a'i effaith
- Sicrhau dealltwriaeth o wraidd y pethau sy'n eu targedu ac nid y symptom, gan gynnwys cytundeb ar yr hyn sydd angen atal a gynhwysir wrth wraidd y strategaeth gorfforaethol
- Galluogi ymyrraeth gynnar gan gynnwys mabwysiadu cyllidebau ataliol a symud i ffwrdd o ddarparu ymatebion acíwt yn unig

### Cydweithio:

- Estyn allan a gwrando ar yr hyn mae eraill yn ei wneud er mwyn dod o hyd i gyfleoedd i gydweithio i ddatgloi synergeddau ac osgoi dyblu
- Cydweithio ac uno i fynd i'r afael â heriau hirdymor (cyffredin) mewn ffordd integredig a chyfrannu at y nodau cenedlaethol
- Edrych y tu hwnt i'r partneriaid arferol i ddatblygu cydweithio aml-sector a dod ag eraill ar y daith i gynaliadwyedd
- Manteisio ar bob cyfle i gydweithio ar lefelau cynllunio a chyflwyno

### Cynnwys:

- Deall bod ymglymiad yn fwy nag ymgynghori a'i weld fel sgwrs 2-ffordd barhaus yn fewnol ac yn allanol
- Nodi ac estyn allan i'r amrywiaeth o bobl y mae polisïau a phenderfyniadau yn effeithio arnynt fel y gallant helpu i ddylunio'ch strategaethau a nodi atebion
- Bod yn agored i newid gwirioneddol, cymryd rhan ystyrlon ac effeithiol gan ei gymhwyso o ddiffinio'r broblem i gyflawni
- Defnyddio ymgyfraniad i nodi anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac i ddiffinio a chyflawni'r weledigaeth hirdymor a nodir yn y nodau, a gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol

## Meysydd i'w gwella

- Adolygu a phrofi pa mor dda y mae gwahanol offer a mecanweithiau atebolrwydd yn cyflawni eu huchelgais ac yn helpu i gyflawni'r Ddeddf yn ymarferol. Rhai o'r offer hyn yw:
  - Offeryn Adrodd Gwybodaeth Busnes i gynnwys adrannau sy'n canolbwyntio ar amcanion hirdymor, y gellir eu hymgorffori mewn cyfarfodydd tîm adrannol
  - Integreiddio'r pum ffordd o weithio yn well drwy gydol yr Asesiad Effaith Integredig
  - Adolygu sut mae'r Holiadur Rheolaeth Fewnol yn cael ei ddefnyddio i roi sicrwydd cyffredinol ar y Ddeddf
- Mae angen adolygu a gwerthuso polisi yn gyson ac yn fwy integredig er mwyn deall effeithiau cronnol ar gynaliadwyedd
- Adolygu ac egluro disgwyliadau Hyrwyddwr Bwrdd Llywodraeth Cymru gyda chylch gwaith clir wedi'i osod yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd
- Gwella'r llif mewnwelediad a sicrwydd, yn ogystal ag egluro'r atebolrwydd a'r llinellau adrodd rhwng y Grŵp Goruchwylio a Galluogi, y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Llywodraeth Cymru
- Gofynnwch gwestiynau mwy treiddgar yn yr Arolwg Pobl

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
**Future Generations** Commissioner for Wales

# Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus



# Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus

## Pam fod arweinyddiaeth yn bwysig

Uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw newid y ffordd y mae'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru yn gweithio a chynnal Cymru fel arweinydd ym maes datblygu cynaliadwy. Rydym i gyd ar y daith hon gyda'n gilydd a'r unig ffordd i ni gyflawni dyheadau beiddgar y ddeddfwriaeth yw trwy sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, a bod pawb yn cyfrannu at y weledigaeth a osodwyd yn y saith nod llesiant.

Mae hyn yn golygu bod angen i weision cyhoeddus o bob corff cyhoeddus fod yn cydweithio, ac yn rhannu arfer gorau a gwersi a ddysgwyd ar y ffordd i wneud y daith yn haws, yn gyflymach ac yn fwy cydgysylltiedig nag y byddai fel arall.

Crëwyd fy rôl i gefnogi gweithrediad y Ddeddf, i fonitro cynnydd, ac i annog arfer gorau. Fodd bynnag, fel yr amlinellir ar sawl achlysur mae gallu fy swyddfa i gefnogi maint y newid sydd ei angen yn gyfyngedig oherwydd adnoddau. Mae'n bwysig cydnabod felly bod gan Lywodraeth Cymru liferau ac adnoddau sylweddol er mwyn gyrru'r newidiadau sydd eu hangen yn fewnol ac yn allanol.

Mae gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae hefyd fel sefydliad cenedlaethol sy'n rhwym i'r Ddeddf, gyda phwerau i greu deddfwriaeth, canllawiau a pholisi sy'n effeithio ar gyrff cyhoeddus eraill, y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r cyhoedd – sydd oll yn cyfrannu at y daith hon. Felly, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn creu'r amodau cywir ar gyfer ffyrdd newydd o weithio ac yn arwain y ffordd i gyrff cyhoeddus eraill o ran dangos sut y gellir cymhwyso'r pum ffordd o weithio orau yn ymarferol. Yn ogystal, gall Llywodraeth Cymru annog ceisiadau drwy rannu ei hadnoddau niferus, enghreifftiau o arferion da a phrofiad gyda'r 47 corff cyhoeddus arall (ar hyn o bryd).

Cymerwyd cam pwysig eisoes gyda datblygu a hyrwyddo dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Nod hwn yw cael un set o werthoedd sy'n arwain sut mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio, yn newid diwylliant ac yn llywio'r ffordd y mae'r sector yn ymddwyn.

Mae'n gadarnhaol bod y set hon o werthoedd wedi'u hadolygu a'u hailysgrifennu i ymgorffori'r Ddeddf a'r pum ffordd o weithio'n benodol.

Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru nifer o fecanweithiau i hwyluso arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus. Ar lefel uwch arweinyddiaeth, er enghraifft, mae datblygiad polisi yn cael ei lywio gan Gyngor Partneriaeth Cymdeithasol cysgodol (a fydd yn cael ei roi ar sail statudol yn fuan); amrywiaeth o fyrddau cynghori gweinidogol a fforymau partneriaeth; yn ogystal â digwyddiadau ad-hoc a rheolaidd fel: Fforwm Arwain y Sector Cyhoeddus a Chymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan. Mae'r rhain yn ffyrdd defnyddiol o hwyluso deialog ar flaenoriaethau, heriau a chyfleoedd cyffredin. Maent yn chwarae rhan hanfodol mewn adeiladu consenswss a chamau gweithredu ynghylch cyfeiriad yng Nghymru, sy'n cyd-fynd yn gyffredinol â'r Ddeddf, ac maent yn rhan o'r dull cydweithredol sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Yn fy mhrofiad i, fodd bynnag, o gymryd rhan mewn llawer o'r fforymau polisi strategol hyn, nid ydynt o reidrwydd yn lleoedd lle mae ystyriaeth fanylach o integreiddio amcanion llesiant, tueddiadau hirdymor, senarios a rhannu dysgu ar y cyd yn digwydd fel mater o drefn. Ar lefel sylfaenol iawn, gallai hyn gael ei hwyluso gan y rhai sy'n darparu cymorth ac ysgrifenyddiaeth i ddod â thueddiadau hirdymor, cysylltiadau â llywodraethau eraill ac agweddau perthnasol ar ddatblygu polisi i sylw aelodau'r byrddau hyn – y mae llawer ohonynt wedi yn aml yn cael eu penodi am arbenigedd mewn maes penodol, neu gynrychiolaeth ohono. Wrth i'r mathau hyn o gydweithrediadau a'u statws ddatblygu, mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn a monitro i ba raddau y mae gofynion y Ddeddf yn cael eu cymhwyso'n briodol i waith datblygu polisi yn y meysydd hyn.


Mae nifer ychwanegol o fforymau lle gall swyddogion Llywodraeth Cymru ryngweithio â swyddogion o gyrff cyhoeddus eraill, megis: Ysgolion Haf a Gaeaf Academi Wales; rhwydweithiau amrywiol a gynullwyd gan sefydliadau ymbarél (fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Conffederasiwn y GIG ac ati); yn Rhwydwaith Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru+ a thrwy eu cynrychiolaeth ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Er bod pob un o'r cyrff hyn yn cyflawni swyddogaethau gwahanol, o eiriolaeth a chyngor i ddysgu a datblygu, maent yn rhoi cyfle i'r llywodraeth rannu dysgu, hyrwyddo'r defnydd o adnoddau megis Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a gwneud cysylltiadau rhwng amcanion llesiant y gwahanol gyrff. Fodd bynnag, mae lle i wella rhai o'r ffyrdd y defnyddir y mecanweithiau hyn yn hyn o beth.

Credaf fod dysgu ac arloesi cyfoethog i'w cael ar draws y sector cyhoeddus (a thu hwnt) ar weithredu'r Ddeddf; a dylid gwneud ymdrechion pellach i archwilio, cynyddu ac annog mabwysiadu'r dulliau hyn yn ehangach. Dros y blynyddoedd, mae fy nhîm fy hun wedi bod yn gweithio i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da lle bo modd, ond mae cyfyngiadau fy rôl a'm hadnoddau yn golygu nad wyf bob amser yn gallu tynnu sylw at yr holl bethau cadarnhaol sy'n digwydd ledled Cymru. Gall ymdrech wedi'i thargedu gan Lywodraeth Cymru i gyfrannu at hyn fynd yn bell tuag at fwrw ymlaen â gweithredu'r Ddeddf.

## Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig

Sut ddylai Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig edrych:



## Galluogi Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig

**Canfyddiad:**
Mae potensial i Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector cyhoeddus a thu hwnt i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – i ysgogi, hyrwyddo enghreifftiau da, creu adnoddau, a rhannu dysgu.

Mae'r swyddogion a'r rhanddeiliaid yr wyf wedi siarad â nhw, o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru, yn frwdfrydig am y weledigaeth a'r ffyrdd newydd o weithio y mae'r Ddeddf wedi'u cyflwyno; ac wedi dangos cefnogaeth i'w weledigaeth a'i gweithrediad.

Roedd hefyd yn galonogol clywed gan randdeiliaid allanol bod eu cydweithrediad â Llywodraeth Cymru wedi gwella a bod yr ymdrechion sylweddol i wella perthnasoedd dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith. Mae ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Rhwydwaith Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru+ wedi'i amlygu'n arbennig ac mae'n ymddangos ei fod yn gweithio'n dda iawn.

> *"Nid yw'r berthynas rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru, swyddogion llywodraeth leol, a gwleidyddion llywodraeth leol erioed wedi bod yn well. Mae llawer iawn o gyfathrebu ac arfer da a rennir."*
>
> **Cynrychiolydd bwrdd gwasanaeth cyhoeddus**

Mae sesiynau tystiolaeth gyda'r sector gwirfoddol hefyd wedi tynnu sylw at gydweithio gwell â Llywodraeth Cymru, yn enwedig gyda'r tîm Newid yn yr Hinsawdd drwy bartneriaeth Climate Cymru, wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd; rhaglen Taith (a fydd yn disodli rhaglen Erasmus); a gwaith y tîm Economi Sylfaenol.

> *"Mae yna ddeialog agored iawn, mae ganddyn nhw ddull Tîm Cymru yno. Mae'r ddeialog honno wedi parhau i dyfu a ffynnu, mae ... pwyslais ar geisio arbenigedd a gwybodaeth gan bartneriaeth Climate Cymru... mae deialog dwy ffordd sy'n gadarnhaol iawn... Yn yr un modd, gyda datblygiad y cwricwlwm newydd (y cwricwlwm addysg) roedd arferion da iawn rhwng y trydydd sector a Llywodraeth Cymru yno."*
>
> **Cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol**

> *"... mae tîm Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru ...wedi bod yn wych... maen nhw wedi gwneud yr amser i lywodraethu a rheoli'r contract hwn yn iawn, ond rydyn ni'n teimlo ein bod ni yno fel partneriaid dibynadwy gydag arbenigedd... Yn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru, mae cyfarfodydd contract wedi canolbwyntio llawer mwy ar broses, am gyllidebau. Mae'n ymddangos eu bod yn colli'r hanfod, y pethau pwysig."*
>
> **Cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol**

Mae cynrychiolwyr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi dweud wrthyf fod y gefnogaeth a gawsant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rownd hon o asesiadau llesiant wedi gwella'n fawr. O ran y rownd ddiweddaraf o asesiadau llesiant, dywedodd swyddogion wrthyf fod

> *"...lefel y gefnogaeth a gawsom [gan Lywodraeth Cymru], a'r berthynas waith gyffredinol yn arbennig o dda. Fe wnaethon nhw chwarae rhan wirioneddol yn ein helpu ni i gyrraedd lle roedd angen i ni fod gyda'n hasesiad."*
>
> **Cynrychiolydd o'r Sector Cyhoeddus**

Mae sesiynau gyda rhanddeiliaid wedi dangos bod y term Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig yn frand pwerus a ddefnyddir yn eang, a bod cyrff cyhoeddus ac eraill yn ei weld yn ddull y mae mawr ei angen ac sy'n cael ei groesawu.



> *"Mae un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig yn hollbwysig, onid yw? Mae llawer o'r problemau a gawn yn cael eu hachosi gan rwystrau artiffisial. Un, y rhwystrau sefydliadol, ac un arall yw rhwystr y flwyddyn ariannol. Y mathau hynny o bethau y mae'n rhaid i chi eu goresgyn os ydych am symud tuag at ffordd fwy cynaliadwy o wneud penderfyniadau a chyflawni. Mae cymaint yn y sector cyhoeddus lle gallwn ni wneud pethau ar y cyd."*
>
> **Rhanddeiliad Adran 20**

Mae Fforwm Aml-randdeiliaid Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ystyried yn fan defnyddiol i'r rhai nad ydynt yn dod o dan y Ddeddf ar hyn o bryd i siarad am eu gwaith mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Mae presenoldeb, fodd bynnag, wedi amrywio, a hoffwn weld sut y gall y fforwm hwn ryngweithio'n uniongyrchol â materion polisi a chyflawni amcanion llesiant.

> *"Yr hyn rydyn ni wedi'i ganfod yn ddefnyddiol iawn yw fforymau rhanddeiliaid Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol...rydym yn rhan o grŵp LinkedIn sy'n derbyn ... postiadau blog a phethau felly. Mae hynny ar gyfer... cyrff sy'n eistedd y tu allan i [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol]... Mae hynny wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ni gael y math hwnnw o gysylltiad uniongyrchol i mewn."*
>
> **Cynrychiolydd o'r cyrff cyhoeddus**

Dull arall defnyddiol y cyfeirir ato'n aml yw Cyfnewidfa Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys tri digwyddiad dros ddwy flynedd, a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru, i rannu arfer a dysgu ar wreiddio'r Deddf ar draws y llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Yn anffodus, nid yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei gynnull yn rheolaidd ac nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i drefnu digwyddiadau pellach.

Yn galonogol, ar ôl cydnabod cyrhaeddiad rhyngwladol, diddordeb, a photensial y Ddeddf ar gyfer hyrwyddo Cymru yn fyd-eang; i ddechrau dan arweiniad y Gweinidog dros Gysylltiadau Rhyngwladol ar y pryd, Eluned Morgan AS; mae'r Tîm Rhyngwladol yn arwain y ffordd yn eu defnydd o'r Ddeddf yn eu gwaith gyda gwledydd eraill drwy ddatblygu Strategaeth Ryngwladol – sydd â'r Ddeddf yn gydran graidd.
Mae angen i adrannau sy'n gweithio gyda'r sectorau preifat a gwirfoddol fanteisio ar y dull hwn o weithredu i achub ar y cyfleoedd y mae'r Ddeddf yn eu cyflwyno i gynnwys eraill wrth gyflawni gweledigaeth gyffredin a rennir ar gyfer dyfodol Cymru.

Y tu allan i'r adolygiad hwn, mae deialog gyda rhanddeiliaid wedi datgelu bod awydd yn y sector preifat yng Nghymru i alinio a chyfrannu at y saith nod llesiant. Rwy'n gweithio gyda nifer o gwmnïau mawr i integreiddio'r nodau yn eu strategaethau corfforaethol a'u prosiectau cymunedol. Mae llawer o sefydliadau'r sector preifat hefyd wedi dangos eu diddordeb yn y Ddeddf drwy gymryd rhan yn Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ogystal, rwyf yn gweithio gyda Busnes Cymru ar eu canllawiau ar y ddeddfwriaeth ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig. Rwyf hefyd wedi adolygu offer polisi ac chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer busnes i nodi sut y gall y Contract Economaidd, Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru sefydlu dull cydgysylltiedig o gymell buddsoddiadau gan fusnesau yn unol â'r Ddeddf.

Wrth i ni annog cyrff cyhoeddus i godi safonau eu strategaethau caffael, mae yna angen cyfartal i hyrwyddo'r ddarpariaeth o nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan y sector preifat yn unol â'r nodau llesiant; ac edrychaf ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i hybu'r momentwm sy'n datblygu o fewn y sector preifat.

Mae'r dull y mae'r Panel Sicrwydd Grantiau wedi'i fabwysiadu i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses grantiau allanol wedi fy nghalonogi. Deallaf fod y cais am grantiau yn cynnwys cwestiwn penodol ar y Ddeddf; sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ddisgrifio sut y maent wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio wrth ddatblygu'r cynllun, a sut y byddant yn parhau i'w cymhwyso yn y cyfnodau gweithredu a gwerthuso. Mae Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Dyfodol Cynaliadwy yn aelod o'r Panel Sicrwydd Grantiau i sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i'r Ddeddf; yn ogystal â darparu cyngor ac arweiniad. Dylid rhoi sylw i atal aelodau'r is-adran hon yn unig rhag dod yn

llais i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar y panel hwn, mewn byrddau a chyfarfodydd tebyg, ac yn allanol gyda chyrff cyhoeddus eraill. Gweler y Bennod ar Bobl a Diwylliant.

Mae gwaith Academi Wales, sy'n gynnig pwysig ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus cyfan, yn cael ei gydnabod a'i groesawu'n fawr; yn arbennig am ei nod o ddod ag arweinwyr o bob rhan o'r sector sifil ynghyd – megis yr Ysgol Haf a Aeaf. Credaf, fodd bynnag, fod cyfleoedd i gryfhau'r cysylltiadau â'r Ddeddf yn rhai o'u cynnwys gan ddefnyddio iaith a thynnu sylw at fwy o gynnyrch y Ddeddf megis amcanion llesiant, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall Academi Wales fonitro ac asesu effaith eu gwaith a chynnwys eu cynnig datblygu arweinyddiaeth yn well, fel eu bod yn gwybod ei fod yn ysgogi'r newid angenrheidiol a'r newid a fwriedir. Deallaf fod Academi Wales ar hyn o bryd yn gweithio ar strategaeth a fyddai'n darparu cyfleoedd cadarnhaol i fynd i'r afael â rhywfaint o hyn; fodd bynnag, bwriedir i hon fod yn strategaeth tair blynedd yn unig ac nid yw'n adlewyrchu ffordd hirdymor y Ddeddf o feddwl. Hoffwn weld gwell ystyriaeth o sut mae dogfennau tymor byr o'r fath yn integreiddio â thueddiadau, senarios a gweledigaeth hirdymor.

Er bod hyn i gyd yn gadarnhaol iawn ac yn dangos cynnydd gwirioneddol yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cydweithredu ac yn gweithio gydag eraill, mae mwy o le i lywodraeth wella yn eu rôl fel arweinydd ar weithredu'r Ddeddf. Amlinellir y rhesymau a'r cyfleoedd am hyn yn yr adrannau isod.

Mae cyfleoedd i weithio'n agosach, rhannu adnoddau, galluogi a grymuso arloesedd, a gwneud gwell cysylltiadau rhwng amcanion llesiant ar draws y sector cyhoeddus; yn ogystal â harneisio parodrwydd y rhai y tu allan i'r sector cyhoeddus i ddefnyddio'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer gweithredu i gyflymu cynnydd a sicrhau bod pawb yn rhan o'r daith tuag at gynaliadwyedd.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn fan defnyddiol ar gyfer rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus allweddol a phartneriaid eraill ym mhob rhanbarth neu ardal.

Er bod y cymorth y mae'r llywodraeth wedi'i roi i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y rownd hon o asesiadau llesiant i'w groesawu, rwyf wedi clywed gan randdeiliaid fod rhai o'r un heriau yr wyf wedi tynnu sylw atynt yn flaenorol i'r llywodraeth, mewn perthynas â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn dal i fodoli.

Daeth heriau ariannu ar eu traws, fel bob amser, yn eithaf cryf yn fy sesiynau tystiolaeth; yn ogystal â materion fel cyfraniad anghyfartal gan bartneriaid a'r dirwedd gymhleth o bartneriaethau a byrddau sy'n bodoli ledled Cymru. Manylwyd ar hyn i gyd eisoes ym Mhennod 2 fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, ond mae angen ailadrodd y pwyntiau hyn gan nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.

> *"...yr her yw... mae'n sefydliad rhithiol heb unrhyw gyllideb. Pan fyddwch yn meddwl am yr holl flaenoriaethau cystadleuol sydd gennym... mae'n rhaid i mi geisio creu'r ddadl y gallwn gyda'n gilydd roi rhywfaint o arian i mewn i'r adnodd hwn, neu ryw adnodd, ond ar yr un pryd, rydym yn gwybod bod gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau... Dydw i ddim yn siŵr beth allwn ni ei gyflawni ar hyn o bryd... ond fy nghynllun yw gweithio gyda'r rhai sy'n barod."*
>
> **Cynrychiolydd o'r bwrdd gwasanaeth cyhoeddus**

Mae tirwedd gymhleth o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn dal i fodoli ac yn cael ei ychwanegu ato. Yn yr adroddiad hwn, rwyf wedi pwysleisio'r angen i gyfathrebu'n glir â gofynion y Ddeddf – mae hyn yn berthnasol i ddeall beth sydd ei angen ar weithredu o fewn Llywodraeth Cymru a pha anghenion gweithredu yn y cyrff cyhoeddus eraill sy'n berthnasol i'r Ddeddf. Fy marn glir yw y dylai Llywodraeth Cymru, wrth greu unrhyw endidau newydd, nodi'n benodol sut y maent yn cysylltu â'i gilydd o ran gosod a chyflawni amcanion llesiant.

Gan ategu ar hyn, mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried beth yw ei rôl o ran cefnogi a galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni eu diben uchelgeisiol. Ystyrir bod gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar bob bwrdd, ar hyn o bryd, rôl eithaf goddefol ac mae Cylch Gorchwyl Cynrychiolwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cadarnhau hyn:

> *"Yn ymarferol, mae'r rôl ychydig yn wahanol i eraill sy'n ymwneud â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan weithredu'n fwy fel sylwedydd nag fel partner lleol – gan wneud cysylltiadau â'r cyd-destun cenedlaethol a darparu her adeiladol."*
>
> ***Cylch Gorchwyl ar gyfer Cynrychioli Gweinidogion Cymru ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus***

### Arfer da gan gyrff cyhoeddus:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio eu gallu a'u harbenigedd cynyddol yn y dyfodol i gefnogi asesiadau a chynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gynnig cynnal gweithdy 3 Gorwel ar bynciau amrywiol a ddewiswyd gan y Byrddau. Maent hefyd yn defnyddio'r gweithdai hyn fel cyfle i ddysgu o waith, arbenigedd a gweledigaethau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a dod â gwybodaeth yn ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r bwriad o gryfhau cydweithio ac integreiddio, yn enwedig mewn perthynas ag amcanion llesiant.

Mae cyfle wedi'i golli i Lywodraeth Cymru chwarae rhan fwy gweithredol fel partner a chyfrannu'n rheolaidd at waith ac ymdrechion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau bod cysylltiadau agos yn cael eu gwneud rhwng gwaith cynaliadwyedd ar lefel genedlaethol a lleol.

Nid yw'n glir ychwaith sut mae'r deallusrwydd a'r wybodaeth a gesglir gan gynrychiolwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu defnyddio gan y llywodraeth i lywio ffrydiau gwaith perthnasol. Hyd y gwn i, nid oes system na mecanwaith i rannu gwybodaeth ac arfer da yn rheolaidd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wahanol dimau ac adrannau ar draws y llywodraeth.

*"Byddai gennyf gryn ddiddordeb mewn clywed am yr hyn sy'n digwydd ar lefel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y gallai Llywodraeth Cymru ei fabwysiadu...mae tuedd i roi sylwebaeth ar yr hyn sy'n digwydd o fewn a rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn sy'n gallu hysbysu a gwella Llywodraeth Cymru ....Dydw i ddim wedi bod yn chwilio am hynny. Dyna fan dall ar fy rhan i. Yn sicr nid oeddwn wedi cael unrhyw sylwadau tebyg. Ond rwy'n amau nad yw'r cynrychiolwyr wedi bod yn chwilio am hynny. Ond pwynt da iawn. Rydym yn agored iawn iddo."*

***Gwas sifil Llywodraeth Cymru***

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi mewnwelediad i'r heriau a'r cyfleoedd o gyrraedd blaenoriaethau ac amcanion polisi a rennir yn lleol a dyma'r unig fecanwaith sydd ar waith sy'n ystyried pob agwedd ar bolisi cyhoeddus a darparu gwasanaethau yn gyfannol (gan eu bod yn gyfrifol am gyflawni cynllun llesiant lleol sy'n cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant). Heb Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, byddai bwlch sylweddol mewn cynllunio hirdymor cydgysylltiedig ledled Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i fanteisio ar y seilwaith hwn, o ran sut y maent yn rhannu mewnwelediad gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac wrth iddynt fynd i'r afael â bylchau neu heriau wrth weithredu polisi'r llywodraeth; wrth gymryd camau ar y cyd tuag at nodau llesiant ar lefel leol, a defnyddio arfer da i gynorthwyo yn eu taith ddysgu eu hunain.

Dylai Llywodraeth Cymru, felly, anelu at egluro ac adnewyddu rôl cynrychiolwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella'r broses o rannu gwybodaeth, arbenigedd a phryderon, a sicrhau bod y rhain yn cael eu bwydo'n ôl i bob adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru waeth beth yw maes gwaith unigol y cynrychiolwyr. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf wedi'i argymell yn flaenorol yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.

## Integreiddio amcanion

Yn yr un modd, nid yw'n ymddangos bod mecanwaith i alluogi ac annog Llywodraeth Cymru i ystyried amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu gwaith; mae hwn yn fwlch ar hyn o bryd yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Ddeddf ar waith.

Diffinnir y ffordd o weithio Integreiddio yn y Ddeddf fel:

*"yr angen i gymryd agwedd integredig, drwy ystyried sut*

*(i) y gall amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant;*

*(ii) mae amcanion llesiant y corff yn effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn benodol pan all camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan ond y gallent fod yn niweidiol i gyflawni amcan arall"*

Rwy'n cydnabod bod coladu a threfnu amcanion a chamau llesiant pob un o'r 48 corff cyhoeddus a dadansoddi sut mae pob un o'r rhain yn effeithio ar amcanion eich sefydliad eich hun yn dasg fawr; fodd bynnag, mae'n allweddol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus unigol yn cydgysylltu eu hymdrechion ac nad ydynt yn dadwneud cyfraniad eraill at nodau llesiant cenedlaethol drwy eu hymdrechion a'u camau eu hunain.

Mae'n bwysig nodi bod bodolaeth y saith nod llesiant yn cynrychioli fframwaith cyffredin ar gyfer gweithredu yng Nghymru a bod hwn yn rhywbeth pwerus, nad yw prin unrhyw wlad arall wedi gallu ei gyflawni. Mae'r Cenhedloedd Unedig, er enghraifft, wedi bod yn annog dinasoedd a rhanbarthau i fabwysiadu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy fel fframwaith ar gyfer gweithredu ac adrodd. Ystyrir bod dinasoedd a rhanbarthau sydd wedi croesawu hyn yn arwain y ffordd.

Yng Nghymru, mae trosi'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn saith nod llesiant (a wnaethpwyd drwy gynnwys pobl a chymunedau'n helaeth ac y cytunwyd arno gan y Senedd) ac mae'r ffaith fod y gyfraith yn gofyn am adroddiad blynyddol yn erbyn y nodau hyn yn gam mawr i'n gwlad.

Mae mwy i'w wneud, fodd bynnag, i sicrhau bod y peirianwaith llywodraethu yn gweithredu yn y ffordd a ragwelir gan yr egwyddor integreiddio a nodir yn y Ddeddf drwy ystyried sut mae eu hamcanion llesiant a'u camau yn effeithio ar gyrff cyhoeddus eraill.

Mae fy swyddfa'n mynd drwy ymarfer o gasglu amcanion llesiant pob corff cyhoeddus yn rheolaidd ac mae wedi rhannu'r dadansoddiad hwnnw â Llywodraeth Cymru yn y gorffennol; fodd bynnag, yn ystod yr adolygiad hwn, nid yw wedi dod yn glir sut y caiff hyn ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau nac i ddadansoddi'r effaith y mae amcanion cyrff cyhoeddus eraill yn ei chael ar Lywodraeth Cymru, ac i'r gwrthwyneb.

Gall deall yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ei wneud i sicrhau bod eu cyfraniad at y nodau llesiant helpu Llywodraeth Cymru ac eraill i osgoi dyblygu ac archwilio cyfleoedd ar gyfer gwaith integredig a chydweithredol.

## Cymhwyso'r Ddeddf wrth weithredu polisi

Cydnabyddir drwy'r adroddiad hwn bod llawer o bolisïau a strategaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru wedi'u cynllunio i gyfrannu at y saith nod llesiant a dangos yn glir sut y defnyddiwyd y pum ffordd o weithio.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod bwlch rhwng dyheadau polisi a'u cyflawni. Nodwyd y **"bwlch gweithredu"** hwn hefyd yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.

Fel yr wyf wedi tynnu sylw ato o'r blaen, mae gan Lywodraeth Cymru farn rhy optimistaidd o'r hyn sydd ei angen i roi'r polisïau uchelgeisiol y mae'n eu datblygu ar waith. Yn aml, mae polisi'n cael ei gyhoeddi heb gynllun wedi'i ddatblygu'n llawn ar gyfer ariannu gweithredu, gan gynnwys gallu i gyflawni, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a monitro cadarn.

Mae hyn yn arwain at fwlch rhwng dyheadau Llywodraeth Cymru a realiti, oherwydd diffyg capasiti a dryswch cynyddol i weithredwyr lleol. Mae cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn aml yn dweud wrthyf i ac Archwilydd Cyffredinol Cymru fod disgwyliadau'n afrealistig, bod angen mwy o gapasiti, adnoddau ychwanegol, hyfforddiant, cymorth llywodraeth ganolog a chaniatâd i ymgymryd â rhai o'r newidiadau a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo'r polisi newydd yn galw am newid diwylliannol a/neu lle mae diffyg cyfeiriad penodol at sut y dylai cyrff cyhoeddus integreiddio neu roi'r gorau i arfer presennol â gofynion newydd.

Rwyf wedi gweld y 'bwlch' hwn yng ngweithrediad WelTAG 17, Polisi Cynllunio Cymru 10, Fframwaith Cynllunio'r GIG, a'r Ddeddf Teithio Llesol.

Cododd fy sesiynau gyda rhanddeiliaid o'r sector gwirfoddol a chynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus eraill bryderon tebyg hefyd. Rwyf wedi clywed gan gyrff cyhoeddus, er enghraifft, er bod dyheadau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru megis yr ymrwymiad i Goedwig Genedlaethol i'w croesawu, nid yw bob amser yn glir sut a phwy fyddai'n cyflawni'r dyheadau hyn a sut y gellir mynd i'r afael â'r bwlch yn y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

Er y gallai hwn fod yn fater y mae llawer o lywodraethau yn ei wynebu, mae hyn hefyd yn effeithio ar sut mae dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu cyflawni. Gall Llywodraeth Cymru greu llu o bolisïau blaengar sydd wedi'u cynllunio i alinio â'r Ddeddf a'i nodau, ond os na chaiff y rhain eu cyflawni'n effeithiol ar lawr gwlad, yna nid ydynt mewn gwirionedd yn cyfrannu at y weledigaeth a'r dyheadau a amlinellir yn y saith nod llesiant.

Yn gadarnhaol, mae ymdrechion yn cael eu gwneud mewn rhai rhannau o Lywodraeth Cymru i edrych yn ddyfnach ar weithrediad hyn drwy Sesiynau Dwys Gweinidogol – er enghraifft, yn yr ardal creu coetir (gweler Pennod 1).

> *"...mae Creu Coetir yn enghraifft dda iawn o hynny... mae LlC yn rhoi targedau Creu Coetir i ni flwyddyn ar ôl blwyddyn... Nid ydym byth yn eu cyrraedd, oherwydd yr hyn sydd ei angen arnom yw trawsnewid mwy strwythurol yn ymarferol a gweithredu polisi mwy integredig yn rhywle arall... Mae gweinidogion newydd fod yn gwneud Sesiynau Dwys i feysydd penodol ac roedd Creu Coetir yn un ohonyn nhw."*
>
> **Cynrychiolydd o'r Sector Gyhoeddus**

Wrth geisio cau'r bwlch gweithredu hwn, dylai Llywodraeth Cymru fod yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn y modd y mae'n dylunio, yn darparu adnoddau ac yn gwerthuso'r broses o roi polisi ar waith. Os gwneir hyn yn dda a bod y ffyrdd o weithio'n cael eu cymhwyso'n briodol, drwy gydol oes polisi, yna gellir mynd i'r afael â llawer o'r materion sy'n cyfrannu at y bwlch gweithredu presennol - er enghraifft:

- Gall cynnwys a chydweithio sicrhau bod hyn yn cael ei gynhyrchu ar y cyd â'r bobl a fydd yn cyflawni'r polisi'n ymarferol a bod materion a all rwystro'r gweithredu'n cael eu hamlygu'n gynnar, yn cael sylw ac yn cael eu hatal yn ystod y cam dylunio. Gellir tynnu sylw'n gyflym at unrhyw faterion dilynol na ellir eu rhagweld a'u datrys os bydd sgwrs barhaus gyda rhanddeiliaid yn digwydd drwy gydol oes y polisi.
- Bydd rhanddeiliaid cyrff cyhoeddus yn gallu codi eu targedau a'u hamcanion llesiant eu hunain, y gall y polisi eu hintegreiddio i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig yn ystod y cam gweithredu.
- Gweledigaeth integredig, hirdymor wedi'i chyd-gynllunio â rhanddeiliaid i greu ymdeimlad o berchnogaeth a rennir a sicrhau bod pawb yn buddsoddi mewn gweithredu polisïau.

- Gall gweithredu atal helpu i ddeall oes polisi a'i ganlyniadau arfaethedig.
- Byddai defnyddio meddwl hirdymor, integreiddio a chydweithio yn gymorth i ddeall gweithrediad y polisi, ei oblygiadau o ran adnoddau, ac olrhain cyflawniad a gwerthusiad o'i effeithiolrwydd.

Mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod y bwlch gweithredu hwn a mynd i'r afael ag ef drwy weithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus a phartneriaid eraill o ddechrau'r broses llunio polisi i sicrhau bod unrhyw heriau'n cael eu hamlygu yn ystod y camau dylunio a datblygu a'u hadolygu drwy gydol y broses hyd at gyflawni a gwerthuso.

## Llywodraeth fel arweinydd

Mae cyfle gwirioneddol i gydweithio ar draws y sector cyhoeddus a thu hwnt i wella gweithrediad y Ddeddf.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswyddau ychwanegol o dan y Ddeddf, yn fwy felly nag unrhyw gorff cyhoeddus arall, o ran cefnogi gweithrediad cyffredinol y ddeddfwriaeth drwy ddyletswyddau fel: cynhyrchu Canllawiau Statudol, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, adroddiad blynyddol Llesiant Cymru, y dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir.

Er bod Llywodraeth Cymru yn amlwg yn cyflawni ei dyletswyddau a hefyd wedi gwella ansawdd yr adroddiadau sy'n cael eu cynhyrchu dros y blynyddoedd, dylent fynd ymhellach i fynd ati'n rhagweithiol i annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r deunyddiau hyn. Gellir gwneud hyn ar y cyd â'm hymdrechion fy hun i hyrwyddo'r offer a'r adnoddau presennol i gyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau eraill.

Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn gwbl glir ynghylch sut, er enghraifft, y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio Adroddiad Llesiant Cymru. Fel yr wyf wedi'i amlinellu mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, er mwyn i'r Ddeddf gael ei gweithredu'n llawn, rhaid i'r llywodraeth geisio ymestyn ei hun y tu hwnt i ddim ond sicrhau bodolaeth adnoddau i asesu'n systematig eu defnydd a'u heffeithiolrwydd wrth gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

> *"... dwi'n meddwl ein bod ni wedi dal hynny yn y gorffennol, ond efallai heb ddal hynny fel mater o drefn yn y dyfodol. Rydym yn gwneud pethau fel mynd i... gyfarfodydd gyda cyrff gwasanaethau cyhoeddus, Cynrychiolwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; i rannu diweddariadau a chlywed sut maent yn defnyddio'r adroddiad. Ond mae'n debyg y gallai'r mecanwaith hwnnw fod yn fwy ffurfiol, ac o ran dal hefyd, sut mae'n cael ei ddefnyddio."*
>
> **Gwas sifil Llywodraeth Cymru**

Gall cyfathrebu ynghylch bodolaeth y deunyddiau hyn a'r defnydd y bwriedir eu defnyddio fod yn fwy cyson a chydgysylltiedig â ffrydiau a rhwydweithiau cyfathrebu eraill i sicrhau bod y bobl gywir mewn cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn clywed amdanynt ac yn eu defnyddio. Gall Llywodraeth Cymru hefyd edrych i rannu rhai enghreifftiau mwy ymarferol o'r defnydd o'r deunyddiau hyn.

> *"Rwy'n eithaf awyddus... am sut yr ydym yn meddwl am sut yr ydym mewn gwirionedd ... gwella ein gêm o gwmpas cyfathrebu cyhoeddus ar rai meysydd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn fewnol,... mae yna her debyg ...ond yn amlwg mae ffyrdd gwell i wneud hynny oherwydd bod yna bethau sy'n berthnasol i feysydd polisi penodol y gallwch eu defnyddio fel bachyn. Efallai bod angen i ni fod yn well am ...rhannu'r arferion da lle mae pobl wedi gwneud y pethau hynny'n dda; i feddwl sut y gallwn ni fath o ledaenu hynny'n ehangach."*
>
> **Gwas sifil Llywodraeth Cymru**

Y tu hwnt i hyrwyddo deunyddiau sy'n benodol i'r Ddeddf, mae gan Lywodraeth Cymru rôl ehangach hefyd o ran cefnogi cyrff cyhoeddus eraill i roi'r Ddeddf ar waith drwy rannu profiad, arbenigedd, tystiolaeth a data.

Mae llawer o arferion da yn Llywodraeth Cymru, o ran mecanweithiau defnyddiol a dulliau polisi, fel y nodir mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynhyrchu llu o ddeunyddiau ac ymchwil defnyddiol a all gynorthwyo eraill yn eu dyheadau a'u gweithrediad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod llwybr na mecanwaith i alluogi rhannu arferion da, dysgu ac adnoddau yn rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gellir gwneud mwy, er enghraifft, i fynd ati'n rhagweithiol i annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio ymchwil a ddatblygwyd yn fewnol gan Lywodraeth Cymru, a dylai'r llywodraeth hefyd ganfod pa ymchwil a fyddai'n ddefnyddiol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cyhoeddus.

Mae'r dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig yn gyfle gwych i wella hyn a gwella cydweithredu a rhannu arferion a dysgu rhwng cyrff cyhoeddus, ond mae angen i'r Ddeddf fod yn amlwg yn y cyfathrebiadau a'r dulliau gweithredu sy'n ymwneud â'r gwaith hwn i wneud y mwyaf o gyfleoedd.

> *"Mae rôl glir iawn i'r Llywodraeth fel arweinydd, mae'r signalau sy'n cael eu hanfon gan weinidogion yn arbennig o bwysig drwy'r system gyfan ond mae angen eu hatgyfnerthu. Rwy'n meddwl bod angen ailddatganiad, o'r brig, bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog i'r ffordd yr ydym yn cyflawni'r cysyniad o ddiwylliant Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig."*
>
> **Gwas sifil Llywodraeth Cymru**

## Cynnydd:

- Mae cydweithio â chyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gwella llawer;
- Mae'r Llywodraeth yn gweithio'n dda gyda rhwydweithiau allanol fel Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru+;
- Mae Fforwm Aml-randdeiliaid Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ofod defnyddiol;
- Mae Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig yn frand cydnabyddedig a chroesawgar;
- Mae Cyfnewidiadau Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddigwyddiadau gwych i hyrwyddo'r Ddeddf;
- Mae'r tîm rhyngwladol a'r Panel Sicrwydd Grantiau yn enghreifftiau gwych o sut y dylid defnyddio'r Ddeddf.

## Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus: Elfennau allweddol Gweithredu

Dylai Llywodraeth Cymru anelu at:

### Hirdymor

- Pennu gweledigaeth gyffredin glir o'r dyfodol dymunol i'r genedl ei gyflawni ac olrhain cynnydd cenedlaethol
- Darparu ffynhonnell ddibynadwy o dueddiadau'r dyfodol
- Galluogi meithrin gallu ac effeithiolrwydd arferion
- Cael strategaeth gorfforaethol hirdymor a'i gweithredu

### Atal

- Galluogi symudiad tuag at atal ac ymyrraeth gynnar
- Arwain a galluogi meithrin gallu; gan gynnwys ariannu'r symudiad tuag at atal

### Cydweithio

- Galluogi cydweithio ac arwain trwy esiampl
- Coladu a rhannu cyflawniadau ac arfer da
- Gweithio mewn partneriaeth

### Integreiddio

- Galluogi integreiddio a hyrwyddo'r Ddeddf ym mhopeth a wnânt
- Integreiddio amcanion
- Integreiddio'r Ddeddf i systemau presennol a rhoi arweiniad clir i swyddogion sy'n cynrychioli'r Ddeddf

### Cynnwys

- Galluogi cynnwys
- Tystiolaeth o gynnwys
- Gwella cynnwys

## Meysydd i'w Gwella:

- Egluro ac adnewyddu Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynrychiolwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Ystyried sut i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni eu diben uchelgeisiol – e.e. adolygu trefniadau ariannu a chanllawiau cyfredol i aelodau i annog mwy o gydweithio a chyfranogiad gweithredol;
- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cydnabod - mae ystyried amcanion llesiant cyrff eraill yn rhan o'r broses benderfynu;
- Cyd-gynhyrchu polisïau gyda'r bobl a fydd yn eu gweithredu i sicrhau yr eir i'r afael â heriau i'w gweithredu yn ystod y cam dylunio;
- Cefnogi timau sy'n gweithio gyda'r sectorau preifat a gwirfoddol i hyrwyddo'r Ddeddf yn well ac annog eraill i'w defnyddio;
- Dod o hyd i ffyrdd o danlinellu gwerth y tymor hir mewn trafodaethau polisi, er enghraifft, ynghylch y gyllideb ac mewn ymgynghoriadau.

# Casgliadau

## Dull Cydweithredol

*Safbwynt cyffredin rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*

Roedd y dull gweithredu ar gyfer yr adolygiad statudol hwn o Lywodraeth Cymru yn ceisio gweithio yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae wedi archwilio sut y gall y Comisiynydd a chorff cyhoeddus sy'n destun y Ddeddf gydweithio fel bod adolygiad statudol yn ysgogi gwelliannau yn y ffordd y mae'r corff hwnnw (yn yr achos hwn, Llywodraeth Cymru) yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r broses hon wedi galluogi swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut mae'r llywodraeth yn gweithio, y cyd-destun ehangach y mae'n gweithio ynddo, a sut mae'r Ddeddf yn cyd-fynd â hynny. Mae hefyd wedi galluogi Llywodraeth Cymru i dderbyn her a chefnogaeth adeiladol ar y camau gwella y mae wedi'u cymryd ac yn bwriadu eu cymryd i wreiddio'r Ddeddf ym mheirianwaith y llywodraeth. Mae hyn wedi galluogi'r defnydd o gyfleoedd cynnar megis digwyddiad i'r holl staff ar y Ddeddf ac adolygiad o rôl Hyrwyddwr Bwrdd, a ddechreuodd yn ystod cyfnod yr adolygiad.

Mae'r broses Adolygu Adran 20 wedi bod yn ymgais wirioneddol gan swyddogion yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru i gydweithio. Rydym yn cydnabod bod gweithio ar y cyd i ysgogi a galluogi newid yn heriol ac yn gynhyrchiol. Mae llawer i'w ddysgu o'r profiad hwn, a gobeithiwn fod hyn yn helpu i ddyfnhau'r cydweithio rhwng ein dau sefydliad, o ystyried ein dyletswydd ar y cyd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Yn gynnar yn y broses adolygu, cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd mai un o'r cyfleoedd gwella allweddol fyddai dwyn ynghyd yr ystod o gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd ac y mae'n bwriadu eu cymryd i ddyfnhau'r modd y maent yn cymhwyso'r Ddeddf, yn un cynllun gweithredu cydlynol, gyda threfniadau cyswllt ar gyfer monitro ac adrodd. Darparodd menter Llywodraeth Cymru 2025 yr Ysgrifennydd Parhaol gyfle amserol a sefydlegig i gynnwys y newidiadau hyn yn rolau a chyfrifoldebau swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiynydd felly wedi defnyddio'r maes gwella trosfwaol allweddol hwn i ddatblygu un argymhelliad a nodir isod.

Mae cynnwys yr Adroddiad Adolygu hwn yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Comisiynydd yn unig tra bod cynnwys y Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus yn parhau i fod yn gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Parhaol a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r broses gydweithredol barhaus cafodd fersiynau drafft o'r ddwy ddogfen eu rhannu rhwng ein dau sefydliad, neu fe fyddan nhw'n cael eu rhannu.

## Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymryd camau i wella'n barhaus sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio ei gwaith i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu hamcanion llesiant, gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a, thrwy wneud hynny, sicrhau bod cymaint â phosibl o gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun, yn nodi'r gwelliannau y bydd yn eu gwneud, sy'n mynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r meysydd i'w gwella a amlinellir yn yr Adroddiad Adran 20 hwn.

Dylai hyn gynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni camau gweithredu a threfniadau ar gyfer adrodd yn flynyddol, monitro ac adolygu cynnydd, a sut y bydd yn cydweithio ag eraill (gan gynnwys swyddfa'r Comisiynydd) i sicrhau y gall Llywodraeth Cymru barhau i fod ar flaen y gad o ran agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agored gyda'r Comisiynydd i fonitro cynnydd y cynllun hwn. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar gynnydd y cynllun hwn ochr yn ochr â'i hadroddiad blynyddol.

I gyd-fynd â'r adroddiad terfynol hwn, rwyf hefyd wedi cynhyrchu matrics aeddfedrwydd sy'n dangos y camau yr hoffwn i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus fod yn eu cymryd i symud ymlaen ymhellach ar y daith i'r saith nod llesiant; a geirfa sy'n esbonio'r termau a ddefnyddir drwy'r adroddiad hwn gan ei bod yn bosibl nad yw'r rhain yn hawdd eu deall gan bobl y tu allan i Lywodraeth Cymru a'r gwasanaeth sifil.

**Gallwch ddod o hyd i'r cynhyrchion hyn [yma](#).**

## Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi dod â maint yr heriau byd-eang sy'n ein hwynebu i'r amlwg. Y prif rai yw'r angen dybryd i weithio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru gryfach, decach a gwyrddach mae angen i ni sicrhau'n barhaus bod y ffordd yr ydym yn gweithio mewn llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r weledigaeth gadarnhaol sydd gennym ar gyfer y dyfodol. Mae hon yn ymdrech ar y cyd, ac rwy'n ddiolchgar i'n rhwydwaith o bartneriaid sy'n parhau i'n cefnogi a darparu her adeiladol fel y gallwn i gyd roi Cymru ar lwybr mwy cynaliadwy.

Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae gennym fframwaith ar gyfer dyfodol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi meddwl hirdymor wrth galon ein gwaith yn y llywodraeth ac yn darparu lens i Weinidogion fframio, llywio a herio'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud ar gyfer pobl Cymru heddiw tra'n helpu i sicrhau ein bod yn gadael etifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol y gallwn fod yn falch ohoni.

Mae cyhoeddi'r adroddiad adolygiad Adran 20 hwn gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rhoi cyfle amserol a chroesawgar inni bwyso a mesur, myfyrio ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yma, a'n helpu i achub ar gyfleoedd newydd yn y blynyddoedd i ddod.

Yn yr un modd ag y mae'r Ddeddf yn gofyn inni wneud pethau'n wahanol, mae hefyd yn golygu edrych yn wahanol ar sut y mae mecanweithiau fel adolygiadau yn cael eu cynnal. Rwy'n falch ein bod wedi gweithio i archwilio sut y gall cydweithredu o fewn yr adolygiad statudol sicrhau perthnasoedd a chanlyniadau mwy ystyrlon ac rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr adolygiad hwn.

## Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn effeithio ar ein holl waith. Mae'n fraint fawr bod yn Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r Ddeddf fel ein golau arweiniol yn ystod cyfnod mor heriol. Yn fy mhrofiad personol i, mae'r dyletswyddau cyfreithiol a osodir arnom yn neddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y ddyletswydd i gydweithio a fframio'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio, yn helpu i danategu diben cyffredin ar gyfer ein holl wasanaethau cyhoeddus. Er ei bod yn ddyletswydd gyfreithiol, mae hefyd yn rym sy'n uno ac yn enghraifft gadarnhaol o'r hyn y gallwn ei gyflawni ar y cyd trwy weithio'n fwy cynaliadwy. Yn fwy na dim, mae'r Ddeddf yn hyrwyddo diwylliant a meddylfryd sy'n croesawu newid cadarnhaol ac sy'n cefnogi gwell prosesau gwneud penderfyniadau.

Rydym yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Ddeddf yn ei olygu'n ymarferol (gan gynnwys dad-ddysgu rhai o'n hen ffyrdd a gwreiddio ymhellach y rhai sy'n effeithiol). Wrth gwrs, mae mwy i'w wneud bob amser. Rwy'n ddiolchgar i gydweithwyr yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn Llywodraeth Cymru am yr holl waith y maent wedi'i wneud i'r Adolygiad Adran 20.

Byddwn yn ymgorffori ein hymateb i'r adolygiad drwy ein Cynllun Dysgu a Gwelliant Parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr ydym wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd y cynllun hwn yn ganolog i'm menter newid WG2025 a bydd yn caniatáu inni gyfathrebu'n fwy effeithiol y cynnydd yr ydym wedi'i wneud a'n cynlluniau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at rannu'r cynllun hwn gyda'n sefydliadau partner a'i ddefnyddio fel llwyfan ar gyfer trafodaethau ar sut y gallwn gyda'n gilydd ddod yn wlad fwy cynaliadwy a chydnerth.



Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

**Future Generations** Commissioner for Wales


**Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

Tramshed Tech
Stryd Pendyris
Caerdydd
CF11 6BH

02921 677 400
cysywlltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru


**cenedlaethaurdyfodol.cymru**